Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Gwerthusiad o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

**Cynnwys**

1. Rhagarweiniad ..... 3
2. Gwybodaeth Gefndir ..... 9
3. Canfyddiadau'r Gwerthusiad ..... 13
4. Casgliadau ac Argymhellion ..... 25
5. Arfer Da ..... 41

**Atodiadau**

1. Atodiad 1 - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru / Cyd-destun Polisi / Cynlluniau Tebyg
2. Atodiad 2 – Methodoleg a Samplu / Dadansoddi Data / Dadansoddiad Meintiol
3. Atodiad 3 - Dadansoddi Data
4. Atodiad 4 - Astudiaethau Achos

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

Yn yr haf 2001, dynododd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) 142 o ardaloedd neu gymunedau difreintiedig yng Nghymru fel rhai sy'n gymwys i'w cynnwys mewn rhaglen newydd, a adwaenir fel Cymunedau yn Gyntaf.

Dewiswyd yr ardaloedd hyn trwy ddefnyddio data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2000), a asesodd pob ward yng Nghymru ac a ddynododd radd iddynt ar sail mesurau incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, mynediad i wasanaethau, a'r amgylchedd.

O'r radd mynegai hon, cafodd y 100 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru eu gwahodd i ddod yn rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd â 32 is-boced o amddifadedd, a 10 partneriaeth ar sail cynigion dychmygus.

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi'i seilio ar yr egwyddor bod tlodi ac anfantais wedi'u creu gan nifer gymhleth o ffactorau, fel cyflawniad addysgol gwael, tai ac amgylcheddau gwael, camddefnyddio sylweddau, marchnadoedd swyddi lleol, systemau budd-daliadau, gwarthnod a safbwyntiau am bobl a lleoedd etc. Er mwyn mynd i'r afael â'r anfanteision hyn, rhaid deall yr achosion. Felly, sefydlwyd Cymunedau yn Gyntaf i gynnig cyfleoedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, a'r asiantaethau sy'n cyflwyno gwasanaethau yn y cymunedau hynny, i astudio gwirioneddau tlodi yn eu hardal eu hunain, ac i gydweithio i fynd i'r afael ag ef.

Mae nifer o nodau allweddol yn sail i Raglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn arweiniad 2006 Cymunedau yn Gyntaf, nodir y nodau fel:

- Magu hyder a chodi hunan-barch pobl sy'n byw yn y gymuned
- Cynyddu incymau pobl leol (gan gynnwys gostwng costau bwyd, gwres, credyd etc.)
- Gwella iechyd a lles
- Annog a gwella addysg a hyfforddi sgiliau ar gyfer gwaith
- Creu swyddi
- Gwneud cymunedau'n ddiogel, yn gadarn ac yn rhydd o drosedd
- Sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno mewn ffyrdd sy'n fwy ymatebol ac yn fwy atebol ar raddfa leol
- Gwella tai ac ansawdd yr amgylchedd
- Annog dinasyddiaeth weithgar

Ar wefan y Cynulliad, caiff y nodau eu nodi fel:

- Cael pobl leol i gymryd rhan wrth wella'u hardaloedd a'u rhagolygon eu hunain
- Dod â chyllid a chymorth i mewn o ystod o ffynonellau i wneud i bethau ddigwydd
- Gwneud yn siŵr bod gwelliannau'n para
- Annog hyblygrwydd, cymryd risgiau a ffyrdd newydd o ddelio â phroblemau
- Cynnwys pawb yn cydweithio i nodi a gwneud rhywbeth am broblemau eu cymuned

Comisiynodd LlCC astudiaeth werthuso interim o dair blynedd o Raglen Cymunedau yn Gyntaf ym mis Mai 2003, dan arweiniad Cambridge Policy Consultants.[1] Gwelodd y gwerthusiad interim fod LlCC wedi cymryd y cyfeiriad cywir trwy flaenoriaethu'r buddsoddiad mewn meithrin gallu sefydliadau a grwpiau cymunedol lleol a thrigolion unigol i gymryd rhan yn weithgar yn y broses newid fel rhag-amod angenrheidiol ar gyfer adfywio. Yn ogystal, ar ôl dechreuad anodd, datblygodd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf fframwaith lle gallai partneriaethau ddechrau cyflawni ymglymiad y gymuned a phartneriaid trwyddo. At hynny, gwelodd y gwerthusiad fod Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

## 1.2 Cylch Gorchwyl

Prif ddiben y gwerthusiad oedd ateb 4 cwestiwn ymchwil. Dyma nhw:

(a) Pa mor effeithlon ac effeithiol yw gweinyddiaeth bresennol Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf? A gaiff gweinyddiaeth y gronfa ei chynnal yn dda gan roi gwerth da am arian?

(b) A ddefnyddir grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn effeithiol i fodloni amcanion Cymunedau yn Gyntaf?

(c) I ba raddau y mae rôl bresennol partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn y Gronfa Ymddiriedolaeth yn briodol o ran y berthynas rhwng prosiectau'r Gronfa Ymddiriedolaeth â'r gwaith a gynhelir yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf?

(d) A yw'r egwyddorion a ddefnyddir i reoli'r dyraniad cyllid rhwng mathau o brosiectau a mathau o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (e.e. cymunedau diddordeb, ardaloedd ward seiliedig, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a phocedi o amddifadedd) yn briodol, yn enwedig yng ngoleuni Mynegai Amddifadedd Lluosog newydd Cymru?

Datblygwyd pob un o'r technegau adolygu a dadansoddi, cyfweliadau, grwpiau ffocws ac ymchwil meintiol ac ansoddol eraill er mwyn ateb y 4 cwestiwn ymchwil hyn.

## 1.3 Fframwaith yr Adroddiad

Mae fframwaith yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

**Rhagarweiniad**

- Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf
- Cylch Gorchwyl
- Fframwaith yr Adroddiad
- Methodoleg

**Gwybodaeth Gefndir**

- Nodau ac Amcanion y Gronfa Ymddiriedolaeth
- Rheoli a Gweinyddu'r Gronfa Ymddiriedolaeth
- Cronfa Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Methodoleg Gwerthuso
- Gwerthusiad Blaenorol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth

[1] http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/research/c1stinterim?lang=en

**Canfyddiadau'r Gwerthusiad**

- Cyfweliadau gyda Rhanddeiliaid
- Grwpiau Ffocws Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Cyfweliadau'r Prosiect
- Ymgeiswyr Aflwyddiannus
- Ymweliadau Prosiect

**Casgliadau ac Argymhellion**

- Cwestiynau Ymchwil
- Argymhellion

**Arfer Da**

- Arfer Da - Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf
- Arfer Da – rheolaeth a gweinyddiaeth ganolog
- Arfer Da – cyflawni'r prosiect

Yn ogystal â'r adran uchod, ceir 4 atodiad hefyd:

- Atodiad 1 - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru / Cyd-destun Polisi / Cynlluniau Tebyg
- Atodiad 2 – Methodoleg a Samplu / Dadansoddi Data / Dadansoddiad Meintiol
- Atodiad 3 - Dadansoddi Data
- Atodiad 4 - Astudiaethau Achos

## 1.4 Methodoleg

Comisiynwyd ymgynghorwyr gan LlCC ym mis Ebrill 2007 i gynnal gwerthusiad o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, y mae ei fanylion wedi'u hamlinellu uchod. Prif elfen y gwerthusiad oedd ystyried pedwar cwestiwn ymchwil. Dyma nhw:

- Pa mor effeithlon ac effeithiol yw gweinyddiaeth bresennol Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf? A gaiff gweinyddiaeth y gronfa ei chynnal yn dda gan roi gwerth da am arian?
- A ddefnyddir grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn effeithiol i fodloni amcanion Cymunedau yn Gyntaf?
- I ba raddau y mae rôl bresennol partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn y Gronfa Ymddiriedolaeth yn briodol o ran y berthynas rhwng prosiectau'r Gronfa Ymddiriedolaeth â'r gwaith a gynhelir yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf?
- A yw'r egwyddorion a ddefnyddir i reoli'r dyraniad cyllid rhwng mathau o brosiectau a mathau o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (e.e. cymunedau diddordeb, ardaloedd ward seiliedig, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) a phocedi o amddifadedd) yn briodol, yn enwedig yng ngoleuni Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru?

Er mwyn cynnal y gwerthusiad, ac i ateb y pedwar cwestiwn ymchwil, datblygodd yr ymgynghorwyr y fethodoleg pedwar cam canlynol

**Cam 1 - Cychwyn ac Ymchwil Desg**

Cam cyntaf yr ymgynghorydd oedd cynnal cyfarfod cychwynnol gyda LlCC i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o ddiben ac amcanion yr ymchwil, cytuno ar amserlenni a gofynion adrodd, a nodi'r dogfennau sylfaen angenrheidiol a chysylltiadau staff yn y Cynulliad.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o ddogfennau polisi allweddol perthnasol, arweiniad, a deunydd darllen ymchwil, er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth. Yn dilyn hyn, cynhaliodd yr ymgynghorwyr nifer fach o gyfweliadau cwmpasu gyda staff allweddol yn LlCC, Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o'r rhaglen.

Yn dilyn y cyfarfodydd hyn a'r elfen ymchwil desg, lluniwyd canllawiau pwnc a holiaduron ar gyfer elfennau amrywiol y gwaith maes gweithgar.

Wedyn, cynhaliodd yr ymgynghorwyr adolygiad o'r wybodaeth rheoli a gesglir mewn perthynas â'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r holl ddata meintiol er mwyn asesu proffil gwario'r Gronfa Ymddiriedolaeth.

Rhan olaf Cam 1 oedd cynnal cyfweliadau ansoddol manwl gan mwyaf gyda rhanddeiliaid y Gronfa Ymddiriedolaeth. Roedd hyn yn golygu cyfweliadau wyneb yn wyneb gydag unigolion o ystod o sefydliadau, fel CGGC, LlCC a Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, gan alluogi ar gyfer casglu data ansoddol a meintiol y gellid ei ddadansoddi i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

**Cam 2 – Gwaith Maes Gweithgar a Dadansoddiad Cychwynnol o Ddata**

Rhan allweddol o'r gwerthusiad hwn oedd cynnal cyfweliadau ffôn wedi'u hwyluso gyda sampl o 361 o brosiectau a oedd yn cynrychioli'r 5,958 o grantiau a oedd wedi cael cyllid trwy'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Amcan y cyfweliadau hyn oedd cael dealltwriaeth gliriach o effeithiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth, tynnu sylw at unrhyw broblemau neu faterion, ac i nodi llwyddiannau, arfer da a chanlyniadau eraill.

Galwodd y briff gwreiddiol am arolwg ffôn gydag isafswm o 200 o ymgeiswyr y Gronfa Ymddiriedolaeth o gyfanswm o 5,958 o'r grantiau a ddyfarnwyd. Astudiodd yr ymgynghorwyr y ffigurau hyn, ac argymhellwyd cyfweliadau gyda dros 200 o ymgeiswyr. Roedd y rhesymeg am hyn fel a ganlyn:

- Cyfanswm nifer y grantiau a ddyfarnwyd (ar ddechrau'r gwerthusiad) = 5,958
- 200 o gyfweliadau o 5,958 = lefel hyder o 95% a chyfwng hyder o 6.8

Er mwyn i'r canlyniadau fod yn fwy grymus yn ystadegol, argymhellwn y dylai cyfwng hyder (neu lwfans gwallau) fod yn +/- 5%, ac felly argymhellwyd y niferoedd canlynol o gyfweliadau ffôn:

- Cyfanswm prosiectau = 5,958
- Er mwyn rhoi lefel hyder o 95% a chyfwng hyder o 5, cyfanswm nifer y cyfweliadau ffôn angenrheidiol = 361

Ar ôl cytuno ar y ffigur hwn, datblygwyd hapsampl haenedig o 1,000 o brosiectau, a oedd yn ystyried ffactorau fel lleoliad daearyddol, dosbarthiad grantiau, maint y grantiau, a ffactorau perthnasol eraill. Gellid dewis prosiectau ar hap o'r sampl o 1,000 wedyn. Cynhyrchwyd yr haprwydd trwy raglennu Excel i greu haprif ac wedyn graddio'r sampl yn unol â'r haprif hwnnw.

Yr arwyddocâd ystadegol o ddefnyddio'r dull hwn yw y gall y darllenydd fod yn sicr fod y safbwyntiau a fynegir gan y sampl yn cynrychioli 95% o gyfanswm y boblogaeth, lle mae ymateb a roddir yn 50%: 50%; neu o'i roi'n syml, gall y darllenydd ymddiried yn y canlyniadau fel rhai sy'n cynrychioli'r boblogaeth gyfan yn ystadegol.

Felly, gwnaed ymrwymiad i gynnal cyfweliadau ffôn wedi'u hwyluso gyda 361 o brosiectau wedi'u cyllido, trwy ddefnyddio holiadur a ddyluniwyd i gasglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol ill dau. Amcan y cyfweliadau hyn oedd cael dealltwriaeth gliriach o effeithiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth, unrhyw broblemau neu faterion allweddol, llwyddiannau, arfer da, lledaeniad daearyddol, etc.

Dechreuodd y broses gyda chyfres o 8 cyfweliad prawf peilot i arbrofi'r holiadur drafft yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Amseru
- Hidlo cwestiynau
- Llif cwestiynau
- Yr iaith a ddefnyddir (h.y. yn syml ac yn hawdd ei deall)
- Ymatebion cyffredinol yr ymatebwyr

Yn dilyn y cyfweliadau peilot hyn, gwnaed rhai mân addasiadau i'r holiadur, ac wedyn cynhaliwyd gweithdy hyfforddiant mewnol i'r staff ymgynghori, a allai wedyn ddechrau'r broses yn gywir. Rhoddwyd y dewis o gyfweliad naill ai Cymraeg neu Saesneg i gyfweledigion, a gwiriwyd ansawdd canlyniadau cyfweliadau yn rheolaidd ar hyd proses yr arolwg.

Cafodd pob prosiect eu cyfweld trwy ddefnyddio system Cyfweliadau Ffôn wedi'u Hwyluso trwy Gymorth Cyfrifiadur (CAFTI) a adwaenir fel Keypoint. Sicrhaodd hyn gysondeb o ran y dull a chofnodi canlyniadau, a galluogodd hefyd ar gyfer croesdabliadau amrywiol o'r data yn ôl yr angen.

Cynhaliwyd dadansoddiad data cychwynnol o ganlyniadau'r 361 o gyfweliadau wedyn, a thrafodwyd y canfyddiadau cychwynnol hyn gyda LlCC, a nodwyd meysydd diddordeb i'w hastudio ymhellach yn yr Astudiaethau Achos (gweler Cam 3).

Yn ogystal, yn ystod Cam 2, cafwyd ymgynghori hefyd gyda chynrychiolwyr partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, sef Cydlynwyr a Chadeiryddion. Cyflawnwyd yr ymgynghoriad hwn trwy ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol, sef grwpiau ffocws, holiaduron hunanlenwi a chyfweliadau ffôn fel yr oedd yn ofynnol.

Yn olaf, yng Ngham 2, cynhaliodd yr ymgynghorwyr hefyd gyfweliadau ffôn wedi'u hwyluso gyda 15 prosiect a oedd wedi gwneud cais aflwyddiannus i'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Bwriad y cyfweliadau oedd pennu a oedd prosiectau'n glir o ran y rheswm dros wrthod, ac a oeddent yn teimlo bod y gwrthodiad hwn yn deg, a'r broses yn arwain ati'n dryloyw.

**Cam 3 – Gwaith Maes Gweithgar (Astudiaethau Achos)**

Yn dilyn trafodaethau gyda LlCC yng Ngham 2, cytunwyd ar y materion allweddol i'w trafod yn ystod nifer fach o ymweliadau astudiaethau achos. Wedyn, trefnwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda 15 prosiect, gan gyfweld â staff allweddol yn y prosiectau, a siarad hefyd gyda buddiolwyr lle roeddent ar gael. Galluogodd yr astudiaethau achos hyn i'r ymgynghorwyr gael dealltwriaeth fanylach o effaith y prosiect ar y gymuned, ac effaith y Gronfa Ymddiriedolaeth ar y prosiect.

**Cam 4 – Dadansoddiad o'r Effaith Gyffredinol**

Yng Ngham 4 y gwerthusiad, roedd yr ymgynghorwyr yn gallu cynnal dadansoddiad o effaith y rhaglen gyfan, gan ddefnyddio gwybodaeth o ymchwil desg, adolygiadau desg, cyfweliadau, grwpiau ffocws ac astudiaethau achos.

Yn olaf, daethpwyd â'r holl ganfyddiadau hyn at ei gilydd ar ffurf adroddiad, gan dynnu ystod o gasgliadau, ateb y pedwar cwestiwn ymchwil, a datblygu argymhellion. Wedyn, trafodwyd y canfyddiadau hyn gyda LlCC mewn cyfarfod triongli er mwyn cytuno ar unrhyw newidiadau ac addasiadau, ac i sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad wedi rhoi arf defnyddiol i LlCC ar gyfer cyflwyno a ffurfio polisi i'r dyfodol. Yn dilyn y cyfarfod hwn, lluniwyd fersiwn ddrafft derfynol o'r adroddiad y cafodd ei hansawdd ei sicrhau i LlCC ei chymeradwyo.

Yn dilyn yr adroddiad terfynol, bydd yr ymgynghorwyr hefyd yn cyflwyno gweithdai rhanbarthol neu drefniadol i adrodd yn ôl canfyddiadau'r gwerthusiad yn ôl yr angen.

## 2. Gwybodaeth Gefndir

### 2.1 Nodau ac Amcanion y Gronfa Ymddiriedolaeth

Sefydlwyd Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf gan LlCC yn 2001. O'r dechrau, crëwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth fel cronfa i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf – nid oedd erioed wedi'i ddylunio i fod yn gronfa strategol. Dyma'r pwynt allweddol i'w gofio wrth drafod nodau ac amcanion y Gronfa Ymddiriedolaeth.

Ni sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i fodloni amcanion rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf, ond yn hytrach i gefnogi unrhyw fath o weithgaredd, a gynhelir gan sefydliadau cymunedol bach, sy'n cynnwys pobl leol sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac sy'n cynnig rhyw fath o fantais economaidd, diwylliannol, cymdeithasol neu amgylcheddol i'r ardal honno. Felly, diben gwreiddiol y nod oedd:

- *"datblygu gallu grwpiau trwy grantiau bach i nifer fawr o sefydliadau bach dan arweiniad y gymuned"*

Fel y gellir gweld o'r uchod, nod y Gronfa Ymddiriedolaeth oedd datblygu cyfalaf cymdeithasol[2] mewn cymunedau difreintiedig. Yn ymarferol, dehonglwyd hyn fel dosbarthu symiau bach o gyllid ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau i grwpiau cymunedol yn gyflym ac yn hawdd. Er mwyn gwneud hyn, dyluniwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i gael gwared ar dâp coch – h.y. lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf o gynlluniau grant yn ddramatig, gan leihau'r defnydd a'r gwerthusiad o waith papur i isafswm. Trwy wneud hyn, anelodd y Gronfa Ymddiriedolaeth at ddosbarthu cronfeydd yn gyflym ac yn hawdd i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac felly'n datblygu'r ffactor teimlad da mewn ardaloedd a oedd wedi dioddef amddifadedd tymor hir.

Ar wahân i fod mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf (neu gyflawni gweithgareddau / gwasanaethau a oedd o fantais i bobl sy'n byw yn ardal Cymunedau yn Gyntaf), roedd rhaid i grwpiau a ddymunai gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth ddangos bod eu prosiect:

- Wedi bod o fantais i'r gymuned / wedi cyfrannu at anghenion adfywio'r ardal
- Wedi ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol
- Yn cael cefnogaeth y gymuned berthnasol
- Wedi defnyddio gwasanaethau / darparwyr lleol ble bynnag bo hynny'n bosibl
- Wedi cynnig gwerth am arian
- Wedi nodi canlyniadau syml ond mesuradwy clir

### 2.2 Rheoli a Gweinyddu'r Gronfa

Rheolir y Gronfa Ymddiriedolaeth ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf ac fe'i gweinyddir yn ganolog gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) trwy dîm o chwe aelod o staff.

Mae'r tîm gweinyddol hwn yn cynnwys un swyddog gweithrediadau, un uwch aseswr grantiau amser llawn ac un rhan-amser, un trefnydd / aseswr, un gweinyddydd, ac un cynorthwyydd gweinyddol. Mae'r tîm yn rheoli cyllideb flynyddol o £3 miliwn, y mae disgwyl iddi godi i £3.23 miliwn yn 2007 / 08 (er mwyn cynnwys 46 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ychwanegol sydd wedi dod yn gymwys i'w cynnwys yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dilyn cyhoeddi Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005).

[2] *Cyfalaf cymdeithasol yw'r amser a'r egni unigol a chymunedol sydd ar gael ar gyfer gwella cymunedau, rhwydweithio cymdeithasol, ymrwymiad dinesig a gweithgareddau eraill sy'n creu clymau cymdeithasol rhwng unigolion a grwpiau.*

Mae pob un o'r 142 o ardaloedd presennol Cymunedau yn Gyntaf yn cael dyraniad blynyddol o gyllid y gall grwpiau cymunedol yn yr ardal honno wneud cais amdanynt. Dyrennir £20,000 y flwyddyn i'r 100 ardal partneriaeth ward seiliedig, fel ag y gwneir i'r 10 partneriaeth seiliedig ar gynigion dychmygus neu gymunedau diddordeb. Dyrennir £10,000 y flwyddyn i'r 32 ardal a ddosberthir yn is-bocedi o amddifadedd. £5,000 yw'r uchafswm ar gyfer cais unigol.

Mae proses ymgeisio'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn syml, gan ddefnyddio ffurflen gais pedair tudalen, y mae'n rhaid ei llenwi a'i chyflwyno i CGGC. Mae nodiadau arweiniad manwl yn cyd-fynd â'r ffurflen, sy'n rhoi esboniadau ac enghreifftiau ar sail cwestiwn, wrth esbonio'r meini prawf cymhwyster hefyd. Ceir hefyd restr wirio i ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel cyfriflenni banc a dyfynbrisiau fel sy'n berthnasol.

Rhaid i bob ymgeisydd i'r Gronfa Ymddiriedolaeth gael geirda gan ganolwr lleol. Nid yw'r geirda hwn yn cyd-fynd â'r ffurflen gais, ond gofynnir amdano gan y Tîm Asesu Grantiau pan ddaw'r ffurflen gais i law swyddfa Caerdydd CGGC. Dewisir canolwyr o ystod o sefydliadau, fel yr Awdurdod Lleol, y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol, neu'r cyngor gwirfoddol sirol lleol. Mae angen i ganolwyr gadarnhau'n unig bod y grŵp yn gyfreithlon: nid ofynnir iddynt roi sylwadau ar waith y grŵp, rhinweddau ei syniad o brosiect, ansawdd y cais etc.

Yn ogystal, nid oes rhaid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan bartneriaeth leol Cymunedau yn Gyntaf. Roedd hwn yn benderfyniad bwriadol ar ran LlCC er mwyn sicrhau nad yw diddordebau bach yn y Partneriaethau yn effeithio ar wrthrychedd y broses asesu. At hynny, roedd pryder hefyd y byddai rhoi cyfrifoldeb i Bartneriaethau weinyddu cronfa grant yn eu hardal yn tynnu eu ffocws ymaith rhag nodi blaenoriaethau lleol ac anghenion adfywio.

Gan fod y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi'i hadeiladu fel hyn, nid oes rhaid i'r grwpiau cais weithio gyda'u partneriaeth leol na hyd yn oed cysylltu â nhw. Fodd bynnag, caiff taenlen wythnosol o bob cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth ei hanfon dros yr e-bost gan y Tîm Asesu Grantiau yn CGGC i bob un o'r 142 cydlynydd partneriaeth i gael eu sylwadau. Mae hyn yn galluogi partneriaethau i godi unrhyw broblemau, fel effaith leol prosiect y gellir ei chwestiynu ar ardal benodol Cymunedau yn Gyntaf neu unrhyw faterion camddefnydd y gallai canolwyr fod yn anymwybodol ohonynt. Lle caiff materion felly eu codi gan gydlynwyr, bydd CGGC yn cysylltu â'r grŵp i egluro'r mater, a bydd hefyd yn gofyn i'r ymgeisydd gysylltu â'r cydlynydd yn eu hardal.

Caiff penderfyniadau ar geisiadau a wneir i'r cynllun eu penderfynu'n ganolog gan Banel Ymgynghorol Grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Mae'r panel yn cyfarfod bob mis, a rhoddir cyfres o daflenni crynodeb iddo gan dîm staff CGGC. Mae'r taflenni hyn yn distyllu'r wybodaeth am geisiadau i'w hisafswm, er mwyn galluogi'r panel asesu i wneud penderfyniadau mor effeithlon â phosibl. Gall y panel ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen, er mwyn llywio'i asesiad. Ni ddylai derbyn yr holl waith papur perthnasol i'r penderfyniad gymryd mwy na 6 wythnos.

Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r 9 sefydliad sy'n rhan o Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf. Dyma nhw:

- Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon (Cymru)
- Rhwydwaith Gweithredu yn y Gymuned
- Datblygu Cymunedol Cymru
- Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu
- Groundwork Cymru
- Menter a Busnes
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ymdrinnir â cheisiadau ar sail y cyntaf i'r felin, gydag amser cyflawni o 6 wythnos o pan ddaw'r datganiad gan y canolwr i law. Lle nad oes cyllid ar ôl yn y dyraniad blynyddol ar gyfer ardal, cedwir ceisiadau ar restr wrth gefn. Os oes tanwariant o unrhyw ardaloedd eraill ar ôl y dyddiad cau, yna trosglwyddir hyn i bot tanwariant

cyllid Cymru gyfan, a gall y Gronfa Ymddiriedolaeth ailgychwyn y ceisiadau a gadwyd, unwaith eto ar sail y cyntaf i'r felin. Mae'r dull hwn yn galluogi'r ardaloedd gyda lefelau uchel o weithgarwch i gael mynediad i fwy na'u dyraniad blynyddol o £20,000 (neu £10,000).

Gall grwpiau wneud cais i'r Gronfa fwy nag unwaith (dros flynyddoedd olynol). Yr unig amodau yw: (1) bod rhaid cael y ffurflen Diwedd Prosiect ar gyfer y prosiect blaenorol cyn y gellir derbyn cais arall am brosiect arall, a (2) rhaid i'r ceisiadau fod ar gyfer gweithgaredd gwahanol bob tro, gan na ellir ariannu'r un gweithgaredd ddwywaith.

Anfonir llythyr at ymgeiswyr aflwyddiannus i'r gronfa, sy'n rhoi manylion y rhesymau pam na lwyddodd eu cais, ac mae'n cynnig adborth pellach un i un os yw'r grŵp yn gofyn amdano. Lle bo'n bosibl, rhoddir gwybodaeth i ymgeiswyr hefyd am ffynonellau cyllid eraill a allai fod yn briodol iddynt.

Mae angen i ymgeiswyr llwyddiannus lenwi ffurflen Diwedd Prosiect pan fydd eu prosiect wedi'i gwblhau. Ffurflen un dudalen syml yw hon, sy'n gofyn am wybodaeth ansoddol yn ymwneud â gwaith y prosiect, a'i effaith ar fuddiolwyr. Yn ogystal, mae LlCC yn gofyn bod 5% o bob grŵp a gyllidir yn cael ymweliad monitro neu alwad ffôn gan CGGC, sy'n gofyn rhai cwestiynau ychwanegol a manylach yn ymwneud â'r effaith ar fuddiolwyr a'r gymuned.

Mae gweinyddiaeth ganolog CGGC o'r gronfa'n sicrhau y gellir darparu ystadegau diweddar ar ardaloedd penodol Cymunedau yn Gyntaf, grwpiau o ardaloedd, neu siroedd. Darperir y wybodaeth hon mewn adroddiadau chwarterol rheolaidd i swyddogion y Cynulliad, a gellir ei defnyddio hefyd i dynnu sylw at ardaloedd lle mae'r lefelau ymgeisio'n isel.

## 2.3 Cronfa Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Cymunedau yn Gyntaf

Yn ogystal â'r Gronfa Ymddiriedolaeth, mae CGGC hefyd yn gweinyddu Cronfa Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Cymunedau yn Gyntaf, a adwaenir yn gyffredin fel y Gronfa Gerddoriaeth, ar ran LlCC. Dyfeisiwyd hon yn wreiddiol fel menter beilot o flwyddyn, gan redeg trwy gydol blwyddyn ariannol 2006 / 2007. Dyrannwyd cyllid o £180,000 i'r Gronfa Gerddoriaeth gefnogi gweithgareddau cerddoriaeth allgyrsiol, fel cerddoriaeth gymunedol, yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn helpu ailfywiogi cymunedau a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol. Mae'r Gronfa Gerddoriaeth yn ychwanegol at y Gronfa Ymddiriedolaeth - ni chymerwyd y dyraniad blynyddol o £180,000 yn 2006/07 o'r dyraniad blynyddol o £3 miliwn i'r Gronfa Ymddiriedolaeth.

Yn dilyn peilot y flwyddyn gyntaf, parhaodd y Gronfa Gerddoriaeth i mewn i 2007/08, y tro hwn gyda dyraniad o £250,000 y mae £25,000 wedi'i roi naill ochr ar gyfer y darpar ardaloedd newydd sy'n cael eu derbyn i'r rhaglen yn ystod 2007-08.

Unwaith eto, dylid nodi bod y Gronfa Gerddoriaeth yn elfen ychwanegol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth, gyda meini prawf dosbarthu a dyrannu gwahanol. Er enghraifft, gall dyraniadau fod ar gyfer ardaloedd unigol, neu ar gyfer grwpiau o siroedd, ac mae dyraniadau hefyd yn seiliedig ar faint y boblogaeth yn y siroedd hynny (gyda dyraniad ychwanegol ar gyfer cymunedau diddordeb yng Nghaerdydd a Chasnewydd).
Felly, mae'r maint cais uchaf yn dibynnu ar nifer yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf y mae'r prosiect cais yn ymdrin â nhw:

- Os cyfyngir y prosiect i un ward Cymunedau yn Gyntaf, y dyfarniad uchaf yw £1,000 y flwyddyn.
- Os yw'r prosiect yn ymdrin â 2 ward neu'n fwy yn yr un sir neu ar draws y sir, y dyfarniad uchaf yw £2,500 y flwyddyn
- Os yw'r prosiect yn ymdrin â 5 ward neu'n fwy yn yr un sir neu ar draws y sir, y dyfarniad uchaf yw £5,000 y flwyddyn
- Os yw'r prosiect yn ymdrin ag 8 ward neu'n fwy a rhaid iddo fod ar draws y sir, y dyfarniad uchaf yw £10,000 y flwyddyn

Derbynnir y ceisiadau i'r Gronfa Gerddoriaeth trwy gydol y flwyddyn gyda dau ddyddiad cau ffurfiol sef 31 Hydref a 31 Ionawr.

Felly, er bod y Gronfa Gerddoriaeth yn gysylltiedig yn agos â'r Gronfa Ymddiriedolaeth, caiff ei rhedeg ar wahân, gyda meini prawf a threfniadau dyrannu a dosbarthu gwahanol. Er bod yr ymgynghorwyr yn ymwybodol o weithrediadau'r Gronfa Gerddoriaeth, nid oedd yn rhan o'n briff i werthuso'r Gronfa Gerddoriaeth gan y byddai hwn yn ddarn o waith ar wahân gyda pharamedrau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r Gronfa Gerddoriaeth yn cynnig ffordd wahanol o weinyddu cynllun grant tebyg, ac felly mae'r gwerthuswyr wedi cymharu modelau dyrannu'r Gronfa Gerddoriaeth a'r Gronfa Ymddiriedolaeth (gweler Adran 4 yr adroddiad hwn).

## 2.4 Gwerthusiadau Blaenorol o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Cynhaliwyd gwerthusiad interim o'r Gronfa Ymddiriedolaeth gan yr ymgynghorwyr Old Bell 3 yn yr haf 2003.[3]

Gwelodd y gwerthusiad fod y Gronfa Ymddiriedolaeth yn llwyddiant, a thynnwyd sylw arbennig at:

- Natur anfiwrocrataidd y broses ymgeisio a'r gronfa ei hun
- Ymwybyddiaeth eang o'r gronfa yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf
- Llwyddiant y gronfa wrth ddarparu grantiau i ystod o grwpiau ar draws ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf
- Y system canolwyr effeithiol
- Yr effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

Ni welodd yr adroddiad unrhyw dystiolaeth fod angen newidiadau sylfaenol, ac nid oedd yn cefnogi gweinyddiaeth ddatganoledig o'r gronfa.

O ran gwendidau'r Gronfa Ymddiriedolaeth, tynnodd Old Bell 3 sylw at:

- Diffyg sicrwydd dros ddyfodol y gronfa
- Pryderon dros gyflymder y broses asesu
- Diffyg rheolau clir mewn perthynas â cheisiadau lluosog
- Diffyg ffocws ar gyfalaf cymdeithasol (ond nid argymhellodd yr ymgynghorwyr newid i'r meini prawf cymhwyster)
- Diffyg ymgynghori â phartneriaethau
- Diffyg canlyniadau mesuradwy o'r gronfa (ond nid aeth yr ymgynghorwyr mor bell ag argymell newidiadau i'r broses monitro)

Arweiniodd y gwendidau a'r cryfderau hyn at nifer o argymhellion, a symudwyd ymlaen gan LlCC.

[3] http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration

# 3. Canfyddiadau'r Gwerthusiad

## 3.1 Rhagarweiniad

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad o'r pum elfen wahanol o'r gwaith maes. Dyma'r pum elfen:

- Cyfweliadau gyda Rhanddeiliaid
- Grwpiau Ffocws Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Cyfweliadau gyda Phrosiectau
- Ceisiadau Aflwyddiannus
- Ymweliadau â Phrosiectau

Nodwyd y dulliau ymgynghori gwahanol ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn yn flaenorol yn adran rhagarweiniad a methodoleg yr adroddiad hwn.

Mae'r ymgynghorwyr wedi tynnu allan y canlyniadau a'r canfyddiadau allweddol o bob un o'r pum set o ymgynghoriadau, ac wedi ysgrifennu'r canlyniadau ar ffurf naratif. Amlygir y materion allweddol yn y naratif mewn **teip trwm**: mae hyn yn sicrhau y gall y darllenydd asesu'n gyflym y canfyddiadau allweddol o'r adroddiad, yn hytrach na gorfod dehongli data, siartiau, dyfyniadau gair am air etc.

I gael cofnod llawn o'r holl ddata a gasglwyd, gan gynnwys graffau a dyfyniadau gair am air, cyfeiriwch at yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

## 3.2 Cyfweliadau gyda Rhanddeiliaid

Fel rhan o elfen gwaith maes y fethodoleg, cynhaliwyd cyfweliadau gyda chyfanswm o 19 o randdeiliaid[4] o ystod o sefydliadau yn cynnwys LlCC, Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf a CGGC. O'r 19 cyfweliad, roedd 16 ohonynt yn rhai wyneb yn wyneb a dim ond 3 oedd yn rhai hunan-gwblhau neu dros y ffôn. Cofnodir prif ganlyniadau'r cyfweliadau hyn isod, gyda chofnod llawn o'r holl ymatebion yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.
I ddechrau, roedd y rhanddeiliaid yn glir **nad bwriad y Gronfa Ymddiriedolaeth oedd bod yn gronfa strategol**; ei bwriad yn syml oedd galluogi cymunedau yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i fynd at grantiau bach yn gyflym ac yn hawdd. Y disgwyl oedd mai effaith uniongyrchol hyn oedd codi proffil ar gyfer rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Nid oedd y Gronfa Ymddiriedolaeth yn gronfa strategol erioed – mae'n ymwneud â galluogi cymunedau i gyflawni eu prosiectau bach eu hunain. Mae'n ymwneud ag enillion cyflym yn hytrach na'r darlun strategol"*

At hynny, er i'r rhanddeiliaid fod yn glir na sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i gyflawni nodau Cymunedau yn Gyntaf, roedd wedi, fel sgil-gynnyrch dosbarthu grantiau, cefnogi rhai o'r nodau hyn i ryw raddau.

Yn ogystal, credodd dros hanner y rhanddeiliaid a holwyd mai prosiectau a oedd yn canolbwyntio ar iechyd a lles a gweithgareddau hamdden oedd ymhlith y rhai mwyaf llwyddiannus wrth gael grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth. **Cwestiynodd** rhai **rhanddeiliaid werth cyllido rhai gweithgareddau,** fel dillad i glybiau

*[4] Rhanddeiliad yw unigolyn neu grŵp gyda diddordeb yn llwyddiant sefydliad wrth gyflwyno canlyniadau bwriadedig a chynnal hyfywedd cynhyrchion / gwasanaethau'r sefydliad. Yn yr achos hwn, mae rhanddeiliaid yn aelodau o Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (sy'n rheoli'r Gronfa Ymddiriedolaeth), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (sy'n gweinyddu'r Gronfa Ymddiriedolaeth) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (anogwyr y Gronfa Ymddiriedolaeth)*

chwaraeon. Fodd bynnag, roedd pawb yn glir bod modd caniatáu'r ceisiadau hyn o dan y meini prawf grantiau, ac felly roeddent yn ymgeiswyr dilys i'r gronfa.

Gan ystyried yr uchod, y cwestiwn i LlCC ei ystyried yw **a ddylid gwneud i'r Gronfa Ymddiriedolaeth alinio â nodau ac amcanion rhaglen Cymunedau yn Gyntaf**. Gallai aliniad felly fod yn genedlaethol (h.y. wedi'i alinio i nodau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gyfan) neu'n lleol (h.y. wedi'i alinio i flaenoriaethau partneriaethau lleol). At hynny, ceir cyfle hefyd i ystyried a oes cwmpas i ddatblygu dwy Gronfa Ymddiriedolaeth (un wedi'i alinio'n strategol, un yn parhau i redeg yn ffordd y Gronfa Ymddiriedolaeth bresennol). Nid ofynnwyd i ymgynghorwyr wneud argymhellion ar y mater hwn fel rhan o'r briff ymchwil; fodd bynnag mae'n fater a ddylai fod yn destun ystyriaeth bellach gan LlCC wrth i Gymunedau yn Gyntaf ddod yn Gymunedau Nesaf.

Gan symud ymlaen at effeithiolrwydd cyflwyno'r rhaglen hyd yma, credodd y rhanddeiliaid fod **y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu grantiau bach yn effeithiol i grwpiau cymunedol niferus**, ac felly wedi codi proffil proses Cymunedau yn Gyntaf yn gadarnhaol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Mae'n cyflawni ei nod – mae grwpiau bach – ystod eang iawn ohonynt – yn mynd at gyllid yn llwyddiannus"*

At hynny, roedd y rhanddeiliaid yn eithaf clir **nad oedd rhaid i grwpiau a oedd wedi cael grant y Gronfa Ymddiriedolaeth sefydlu cyswllt gyda'u partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol**. Gwelwyd bod cymorth partneriaeth i grŵp a'i gais yn ddymunol, ond heb fod yn hanfodol, gan fod y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu'n fwriadol i weithredu'n annibynnol ar broses ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Nid yw rhai grwpiau'n gweithio gyda'u partneriaeth leol, ond mae hynny'n iawn, a dylem adael i bethau fod."*

Gan fynd â'r pwynt hwn ymhellach, teimlai rhanddeiliaid yn gryf hefyd **na ddylai Partneriaethau gael rheolaeth o'r Gronfa Ymddiriedolaeth**. Roedd y rhesymau wedi'u canolbwyntio ar allu amrywiol eang a phrofiad trafod grantiau partneriaethau unigol, a'r perygl o gyflwyno dylanwadau lleol i'r broses gwneud penderfyniadau. Teimlai rhanddeiliaid hefyd bod cryn amser ac ymdrech wedi'i dreulio wrth helpu partneriaethau i ddeall eu rôl fel hwyluswyr i broses ddatblygu, ac y gallai rhoi cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau'r gronfa ymddiriedolaeth i Bartneriaethau achosi cam sylweddol yn ôl tuag at chwarae rôl pwyllgor grantiau yn hytrach na rôl ddatblygu, ac felly'n tynnu ymaith y ffocws partneriaeth o gyflwyno cynlluniau gweithredu lleol. Teimlai rhanddeiliaid hefyd y byddai datganoli gweinyddiaeth i bob sir / ward yn arwain at ddyblygu, yn ogystal â mwy o gostau ar gyfer monitro, gwerthuso ac archwilio. Yn olaf, teimlai rhanddeiliaid hefyd y byddai datganoli hefyd yn arwain at golli cysondeb a didueddrwydd y broses gwneud penderfyniadau, gan na fyddai profiad y Panel Ymgynghorol Grantiau'n cael ei ddefnyddio mwyach.

Er gwaetha'r pryderon uchod, cydnabyddodd y rhanddeiliaid y **gallai'r Partneriaethau chwarae rôl gynyddol ym mhroses y Gronfa Ymddiriedolaeth, heb drosglwyddo rheolaeth lawn o'r rhaglen**. Roedd awgrymiadau o ran sut y gallai ymglymiad cynyddol gael ei gyflawni'n effeithiol yn cynnwys:

- Galluogi rôl fwy canolog i bartneriaethau wrth roi sylwadau ar sut roedd ceisiadau'n ffitio gydag amcanion lleol
- Galluogi partneriaethau i gael eu cynrychioli mewn rhyw ffordd ar y panel asesu grantiau
- Rhoi mwy o wybodaeth i bartneriaethau o gyfarfodydd panel fel y gallant wneud sylwadau, ac felly dylanwadu ar benderfyniadau'r panel i'r dyfodol o bosibl.
- Sefydlu grwpiau ffocws fel y gall y bartneriaeth roi sylwadau ar feini prawf cymhwyster y gronfa

Er bod yr ymgynghorwyr yn cytuno mai gwahanu'r Partneriaethau oddi wrth broses y Gronfa Ymddiriedolaeth yw'r drefn gywir, dylai Partneriaethau gael gwybod bob amser am yr ymgeiswyr i'r Gronfa Ymddiriedolaeth, a llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y ceisiadau hynny. Gallai methu gwneud hyn arwain at **gyllido dwbl** grŵp, neu **ddyblygu gweithgareddau** rhwng grwpiau. Ar hyn o bryd, rhoddir diweddariadau rheolaidd i Bartneriaethau o ymgeiswyr a chanlyniadau, a dylid parhau i wneud hyn. Os yw'r broses yn gweithio'n effeithiol, bydd y Partneriaethau'n parhau i chwarae rôl wrth gydlynu gweithgareddau yn eu hardal, ac **annog**

**cydweithio** rhwng grwpiau ar lefel leol (ac o bosibl ar draws siroedd hefyd, fel yn y Gronfa Gerddoriaeth). Gallai cydweithio felly annog datblygiad cynaliadwyedd mewn grwpiau cymunedol lleol o bosibl.

O ran gweinyddu, nid oedd gan y rhanddeiliaid **unrhyw bryderon am reoli a gweinyddu'r** Gronfa Ymddiriedolaeth, yr ystyrir ei bod yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol. Fodd bynnag, teimla rhai, ond nid pob un – o'r rhanddeiliaid yn glir **fod yna botensial i wella dull marchnata'r** Gronfa Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir bod adnoddau'n fater, a byddai unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau marchnata'n effeithio'n anochel ar gyllidebau ac amser y staff. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Rwy'n credu mai Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yw elfen fwyaf llwyddiannus rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n dweud rhywbeth cadarnhaol iawn am ei rheolaeth a'i gweinyddiaeth"*

Nododd y rhanddeiliaid hefyd ystod o **arfer da**, ond a oedd yn gysylltiedig yn benodol â rheolaeth a gweinyddiaeth y rhaglen. Yn ogystal, nododd y rhanddeiliaid nifer o **wersi a ddysgwyd** yn ystod einioes y rhaglen, yn ymwneud yn gyffredinol ag eglurder y meini prawf ar gyfer cymhwyster. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Cadw'r gwaith monitro ar lefel isel iawn yw'r peth iawn i wneud. Nid yw'n atal grwpiau bach ac amhrofiadol rhag gwneud cais"*
- *"Yn ôl yn y dechrau'n deg, roedd ychydig o ddryswch ynglŷn â'r hyn oedd yn gymwys. Rydym wedi dysgu yn sgil hyn ac mae gennym bellach ganllawiau clir iawn ynghylch yr hyn y gellir ac na ellir ei gyllido"*

I'r dyfodol, teimlai'r rhanddeiliaid y dylai'r **ardaloedd LSOA newydd** (y mae disgwyl iddynt ymuno â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf dros y misoedd nesaf) **ffitio i mewn yn syml i broses y Gronfa Ymddiriedolaeth fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd**, ond cafwyd rhywfaint o drafod am lefelau cyllid. (Sylwch fod yr ymgynghorwyr yn gwneud argymhellion ar y mater hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad).

Yn ogystal, **roedd gan randdeiliaid syniadau amrywiol ar gyfer datblygiad y Gronfa Ymddiriedolaeth i'r dyfodol**, y gellid trafod y cyfan ymhellach yng ngoleuni pontio i Gymunedau Nesaf. Byddai'r drafodaeth hon yn hynod berthnasol petai unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â'r **potensial ar gyfer aliniad strategol y Gronfa**. Roedd y syniadau gan randdeiliaid yn cynnwys:

- A ddylai grwpiau gael hawl ai peidio yn y dyfodol i wneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth i gyllido'r un gweithgaredd fwy nag unwaith
- A ddylai grwpiau gael hawl ai peidio yn y dyfodol i wneud cais i barhau â'r gweithgareddau
- P'un a oedd angen mwy o bwyslais ar 'ansawdd' grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth ai peidio - h.y. a ddylai grwpiau barhau i allu defnyddio'r gronfa i brynu blaseri a theis, dillad rygbi, yrnau te etc.
- A ddylai fod mwy o waith allgymorth ai peidio gyda chymunedau nad ydynt yn gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth (e.e. y gymuned sipsiwn)
- A ddylid sefydlu system brocera ai peidio i gefnogi ymgeiswyr i'r Gronfa Ymddiriedolaeth
- A all y broceriaid hyn gymryd rôl gyswllt ai peidio rhwng partneriaethau a grwpiau
- A ddylai mwy o waith rhannu arfer da godi o brosiectau a gyllidir gan yr Ymddiriedolaeth
- A ddylai adnoddau ychwanegol ar gyfer monitro a marchnata'r Gronfa Ymddiriedolaeth fod ar gael ai peidio

## 3.3 Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf – Grwpiau Ffocws a Holiaduron

Fel rhan o elfen gwaith maes y broses werthuso, defnyddiwyd ystod o ddulliau ymgynghori i gysylltu â chynrychiolwyr partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Yn yr achos cyntaf, trefnwyd tri grŵp ffocws - un yng Nghaerdydd i gynnwys ardal de ddwyrain Cymru, un yn Llanelli i gynnwys ardal de orllewin Cymru, ac un yn y Rhyl i gynnwys ardal gogledd Cymru. Wrth gwrs, ni fyddai'r lleoliadau hyn yn addas ar gyfer holl gynrychiolwyr y Bartneriaeth, felly cynigiwyd hefyd y dewisiadau

o holiadur hunanlenwi, neu lenwi holiadur gyda chymorth staff hyfforddedig yr ymgynghoriaeth (e.e. trwy gyfweliad ffôn wedi'i hwyluso).

Er mwyn hwyluso'r broses ymgynghori hon, defnyddiwyd y gronfa ddata bresennol o gysylltiadau ar gyfer yr holl gydlynwyr yn y 142 o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Anfonwyd gwahoddiad at bob cydlynydd i gymryd rhan, a gofynnwyd i'r cydlynwyr hyn hefyd wahodd cadeirydd eu Partneriaeth i gymryd rhan yn y drafodaeth (defnyddiwyd y dull hwn gan nad oedd cronfa ddata o gysylltiadau o gadeiryddion y Bartneriaeth ar gael). Roedd y gwahoddiad i gymryd rhan yn cynnwys:
(a) manylion y sesiynau grŵp ffocws (b) y cyfle i ddychwelyd holiadur hunanlenwi neu (c) y dewis i gwblhau cyfweliad dros y ffôn gyda staff yr ymgynghoriaeth.

Felly, gwahoddwyd rhyw 284 o unigolion i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn (gallai'r niferoedd amrywio ychydig, yn sgil un neu ddwy swydd wag). O'r 284 o ymatebion posibl, cafodd yr ymgynghorwyr fewnbwn gan y canlynol:

- Dychwelwyd 14 o holiaduron hunanlenwi
- Mynychodd 17 o bobl y grwpiau ffocws (atebodd 27 y byddent yn mynychu'r sesiynau, ond dim ond 17 o'r rhain fynychodd y digwyddiad mewn gwirionedd)

Felly, derbyniwyd cyfanswm o 31 ymateb o gyfanswm posibl o ryw 284, sy'n cyfansoddi cyfradd ymateb o 13%. Sylwer hefyd i ddau ymateb ychwanegol ddod i law ar ôl y dyddiad cau; ni ellid cynnwys y rhain gan fod y data eisoes wedi'i ddadansoddi a'r adroddiad wedi'i ysgrifennu.

Mae manylion canlyniadau'r ymgynghoriad hwn isod, gyda chofnod llawn o'r holl ymatebion yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

Yn gyntaf oll, o'r Partneriaethau a atebodd, roedd y mwyafrif yn glir mai **nod y Gronfa Ymddiriedolaeth oedd galluogi grwpiau cymunedol bach i fynd at symiau bach o gyllid yn gyflym ac yn hawdd**. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Galluogi grwpiau cymunedol lleol a allai gael eu heithrio neu nad oes ganddynt y gallu i wneud cais i gyllidwyr eraill fynd at gronfa syml, anfiwrocrataidd ar gyfer eu datblygiad ac ar gyfer datblygiad y gymuned ehangach."*

At hynny, teimlai mwyafrif y Partneriaethau a ymatebodd fod y **Gronfa Ymddiriedolaeth wedi galluogi grwpiau i fagu eu hyder, datblygu eu sgiliau rheoli prosiect, a symud ymlaen at lwyddiant gyda cheisiadau cyllido eraill.**

Cafwyd ymateb cymysg gan Bartneriaethau mewn perthynas â **lefel ymglymiad y prosiect â'u partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol**, gyda rhai o'r ymatebwyr yn teimlo'n anniddig eu bod wedi'u hanwybyddu i bob pwrpas ym mhroses y Gronfa Ymddiriedolaeth, ac eraill yn teimlo nad oedd ymglymiad felly'n bwysig. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Mae rhai yn cymryd rhan yn uniongyrchol, ac eraill ddim. Ond teimlaf nad yw hyn yn beth gwael o reidrwydd cyhyd â bod y gronfa'n meithrin gallu yn y gymuned ac yr eir ati er lles uniongyrchol y gymuned."*
- *"Cyn iddynt wneud cais, dylai grwpiau gysylltu â'u partneriaethau a chyfarfod â nhw. Nid yw'n ymwneud â rheolaeth – mae'n ymwneud â phartneriaethau'n gwybod beth sy'n digwydd"*

Pan ofynnwyd iddynt ynghylch ymwybyddiaeth gyffredinol y rhaglen, ni chododd y Partneriaethau a ymatebodd **unrhyw faterion difrifol yn ymwneud â hyrwyddo a marchnata**. Cafwyd dealltwriaeth glir y gellid cyflawni'r gwaith o hyrwyddo'r Gronfa Ymddiriedolaeth orau trwy'r Bartneriaeth ei hun, ynghyd â rhwydweithiau a fforymau eraill, yn ogystal â thrwy bobl yn clywed am y prosiectau eu hunain trwy bobl eraill.

Teimlai'r ymatebwyr mai dyma oedd **elfennau'r Gronfa Ymddiriedolaeth a oedd wedi gweithio'n hynod dda:**

- Mynediad i gyllid graddfa fach, syml ar gyfer grwpiau cymunedol bach
- Bu dyraniad penodol ar gyfer pob ardal o gymorth, gan iddo sicrhau fod partneriaethau a grwpiau'n gwybod yn union yr hyn oedd ar gael
- Ffurflenni cais a oedd yn hawdd i ymgeiswyr y tro cyntaf eu dilyn
- Defnyddir termau syml yn y ffurflen gais
- Trosiant cyflym o geisiadau
- Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn rhoi hyder i grwpiau edrych ar gynlluniau cyllido eraill, mwy beichus
- Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn rhoi cyfle i grwpiau bach ddatblygu prosiectau am y tro cyntaf
- Cyfradd llwyddiant uchel ceisiadau grantiau
- Hyblygrwydd mewn perthynas â thanwariant a hawl trosglwyddo cronfeydd (h.y. roedd y grwpiau'n gallu cysylltu â CGGC a chytuno ar ffyrdd priodol eraill o wario'r grant)
- CGGC yn fodlon dod allan a chynorthwyo grwpiau
- Monitro a gwerthuso syml, heb fod yn fygythiol

At hynny, teimlai'r ymatebwyr mai dyma oedd **elfennau'r Gronfa Ymddiriedolaeth na weithiodd gystal**:

- Diffyg rheoli partneriaeth dros ddosbarthu cronfeydd
- Diffyg gwybodaeth a ofynnwyd amdani gan gydlynwyr lleol mewn penderfyniadau ymgeisio ymlaen llaw
- Cyswllt cyntaf trwy'r llinell gyngor (ystyriwyd bod hyn yn atal grwpiau amhrofiadol o bosibl)
- Ni chaniateir grantiau cydamserol (h.y. rhaid i grwpiau ddychwelyd adroddiad diwedd prosiect a derbynebau cyn y gallant wneud cais am grant arall)
- Grwpiau o'r tu allan i'r ardal a chanddynt gyswllt tenau â'r gymuned leol, yn gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth (nodwyd diffyg gwybodaeth leol y canolwyr fel rheswm am hyn)
- Diffyg cyfatebolrwydd rhwng prosiect grŵp a blaenoriaethau'r bartneriaeth leol
- Sefydliadau mawr yn gweithio ledled y sir yn gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth
- Dyrannu i wardiau gyda phoblogaeth fach yr un faint o arian â ward gyda phoblogaeth fawr

Yn olaf, teimlai'r ymatebwyr mai **elfennau'r Gronfa Ymddiriedolaeth y dylid eu newid** oedd:

- Rhaid bod gan ganolwyr wybodaeth leol
- Dylai fod gan bartneriaethau / cydlynwyr hawl i roi sylwadau ar geisiadau
- Proses lymach ar gyfer sefydliadau mawr sy'n gwneud cais am gronfeydd lleol
- Cyhoeddi dyddiadau cyfarfodydd y panel grantiau er mwyn canolbwyntio ymgeiswyr ar ddyddiadau cau
- Dylai grwpiau ond allu gwneud cais hyd at dair gwaith i'r Gronfa Ymddiriedolaeth er mwyn atal y grwpiau hynny sy'n mynd at y gronfa blwyddyn ar ôl blwyddyn
- Cymorth i grwpiau gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd
- Gofyn i grwpiau fod yn fwy penodol am eu canlyniadau
- Mynnu y dylai grwpiau sy'n cael y Gronfa Ymddiriedolaeth gadw mewn cysylltiad â'u partneriaeth leol
- Symud tanwariant ym mhrif raglen Cymunedau yn Gyntaf i Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Datblygu sefyllfa man canol lle gall partneriaethau, dan oruchwyliaeth, benderfynu ar geisiadau o dan £500
- Dylai CGGC sicrhau bod pob grŵp sy'n cysylltu â nhw'n cael eu cyfeirio at eu cydlynydd neu weithiwr datblygu lleol
- Y dylai adroddiadau ariannol / monitro a gaiff eu llunio gan grwpiau ar ddiwedd eu prosiect fod ar gael i'r bartneriaeth leol

Er bod y pwyntiau a godwyd uchod yn cynnwys mwy o ymglymiad gan y Bartneriaeth ym mhroses y Gronfa Ymddiriedolaeth, dylid cofio y cafwyd **ymateb siomedig i'r ymgynghoriad** ymhlith cynrychiolwyr y Bartneriaeth, gyda chyfradd ymateb o 13% yn unig, Mae'n ymddangos bod hyn yn dynodi **nad oes teimlad cryf ymhlith mwyafrif y Partneriaethau y dylid datganoli rheolaeth i'r lefel leol**: teimla'r ymgynghorwyr y

byddai safbwyntiau cryf ar y mater hwn ar draws mwyafrif y Partneriaethau wedi creu cyfradd ymateb sylweddol uwch.

## 3.4 Cyfweliadau gyda Phrosiectau

Rhan allweddol o'r gwerthusiad hwn oedd cynnal cyfweliadau ffôn wedi'u hwyluso gyda sampl o 361 o brosiectau sy'n cynrychioli'r 5,958 o grantiau a gafodd gyllid trwy'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Amcan y cyfweliadau hyn oedd ennill dealltwriaeth gliriach o effeithiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth, i dynnu sylw at unrhyw broblemau neu faterion, ac i ddynodi llwyddiannau, arfer da a chanlyniadau eraill.

Galwodd y briff gwreiddiol am arolwg ffôn gydag o leiaf 200 o ymgeiswyr y Gronfa Ymddiriedolaeth, o gyfanswm o'r 5,958 o grantiau a ddyfarnwyd. Astudiodd yr ymgynghorwyr y ffigurau hyn, ac argymhellwyd cyfweliadau gyda dros 200 o ymgeiswyr. Roedd y rhesymeg am hyn fel a ganlyn:

- Cyfanswm nifer y grantiau a ddyfarnwyd (ar ddechrau'r gwerthusiad) = 5,958
- 200 o gyfweliadau o 5,958 = lefel hyder o 95% a chyfwng hyder o 6.8

Er mwyn i'r canlyniadau fod yn fwy grymus yn ystadegol, argymhellwn y dylai cyfwng hyder (neu lwfans gwallau) fod yn +/- 5%, ac felly argymhellwyd y niferoedd canlynol o gyfweliadau ffôn:

- Cyfanswm prosiectau = 5,958
- Er mwyn rhoi lefel hyder o 95% a chyfwng hyder o 5, cyfanswm nifer y cyfweliadau ffôn angenrheidiol = 361

Ar ôl cytuno ar y ffigur hwn, datblygwyd hapsampl haenedig o 1,000 o brosiectau, a oedd yn ystyried ffactorau fel lleoliad daearyddol, dosbarthu grantiau, maint y grantiau, a ffactorau perthnasol eraill. Gellid dewis prosiectau ar hap o'r sampl o 1,000 wedyn. Cynhyrchwyd yr haprwydd trwy raglennu Excel i greu haprif ac wedyn graddio'r sampl yn unol â'r haprif hwnnw.

Yr arwyddocâd ystadegol o ddefnyddio'r dull hwn yw y gall y darllenydd fod yn sicr fod y safbwyntiau a fynegir gan y sampl yn 95% sy'n cynrychioli cyfanswm y boblogaeth, lle mae ymateb a roddir yn 50%: 50%; neu o'i roi'n syml, gall y darllenydd ymddiried yn y canlyniadau fel rhai sy'n cynrychioli'r boblogaeth gyfan yn ystadegol.

Tra roedd sampl y prosiect yn cael ei bennu, datblygwyd holiadur prosiect, a oedd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig. Roedd hyn yn ymdrin â'r holl faterion allweddol fel yr amlygwyd uchod, ac roedd ar gael i brosiectau yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel y gofynnwyd.

Ar ôl datblygu fersiwn ddrafft yr holiadur, cynhaliwyd cyfres o 10 cyfweliad peilot i brofi amseru, llif y cwestiynau a'r iaith a ddefnyddir (h.y. syml a hawdd ei deall). Yn dilyn y broses beilot, gwnaed rhai mân addasiadau i'r holiadur (manwl gyweirio'r iaith gan mwyaf, a thynnu ymaith dri chwestiwn a arweiniodd at ailadrodd atebion blaenorol). Ar ôl cwblhau'r holiadur, cynhaliodd yr ymgynghorwyr weithdy hyfforddiant mewnol wedyn ar gyfer ei staff ymgynghori a dechreuodd y broses cyfweld dros y ffôn wedi'i hwyluso yn gywir.

Rhoddwyd dewis i'r cyfweledigion o gyfweliad yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg ac argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Wedyn, gwiriwyd ansawdd holl ganlyniadau'r cyfweliadau yn rheolaidd trwy gydol proses yr arolwg, er mwyn sicrhau bod data ansawdd uchel yn cael ei gasglu drwyddi draw.

Canlyniad y cyfweliadau hyn oedd casglu ystod o ddata ansoddol a meintiol yn ymwneud â'r 361 o brosiectau a gyllidwyd. Dadansoddwyd y data, a chaiff y canlyniadau allweddol eu cynnwys isod.

I ddechrau, **teimlai mwyafrif y grwpiau (52%) mai eu prif ffocws oedd iechyd a lles a gweithgareddau hamdden.**

At hynny, **teimlai mwyafrif y grwpiau (95%) fod eu gweithgareddau wedi esgor ar fuddiannau cymdeithasol**, gyda 45% yn credu bod eu prosiect wedi esgor ar fuddiannau diwylliannol, 17% ac 16% yn teimlo bod eu prosiect wedi esgor ar fuddiannau economaidd neu fuddiannau amgylcheddol yn y drefn honno.

Pan ofynnwyd iddynt ddweud pa mor hen oedd eu grŵp pan gafodd arian y Gronfa Ymddiriedolaeth, **roedd 58% o'r grwpiau dros 7 oed**, lle roedd **dim ond 17% yn llai nag 1 mlwydd oed**. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o achos pryder, gan y gallai fod yn ddymunol i'r Gronfa Ymddiriedolaeth ddenu grwpiau mwy newydd ac amhrofiadol, gan mai'r grwpiau hyn allai elwa fwyaf o bosibl ar y broses ymgeisio syml, ac felly magu eu hyder a datblygu eu galluoedd rheoli prosiectau.

Pan ofynnwyd ynghylch effaith y Gronfa Ymddiriedolaeth ar eu grŵp, **teimlai 75% o'r ymatebwyr fod cael arian y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gallu** (e.e. roedd wedi magu hyder wrth wneud cais am gyllid arall, wedi datblygu hunangynhaliaeth, wedi helpu'r grŵp i ddod yn fwy llafar, etc). At hynny, **dywedodd 98% fod y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi'u helpu i gyflawni'r hyn roeddent am ei gyflawni.**

Aeth y grwpiau ymlaen i drafod y broses ymgeisio. **Dim ond 2% oedd yn teimlo fod y broses yn aneglur neu'n ddryslyd, a dim ond 4% oedd yn teimlo bod y broses yn araf**. At hynny, ni fyddai 76% o'r grwpiau'n newid unrhyw beth am y broses ymgeisio, ond i'r rhai a fynegodd farn, dyma'r newidiadau a awgrymwyd:

- Cyflymu'r broses
- Caniatáu ail gais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth tra roedd yr un cyntaf yn dal i fod yn 'fyw'
- Cael mwy o gyfarfodydd panel grantiau rheolaidd
- Galluogi mwy nag un cais ar gyfer yr un gweithgaredd
- Sicrhau bod gan ganolwyr wybodaeth leol
- Sicrhau bod modd cysylltu â chanolwyr yn hawdd

Yn ogystal, **teimlai 94% o'r ymatebwyr bod y gofynion monitro sy'n gysylltiedig â'r gronfa naill ai'n syml neu o lefel dderbyniol.**

Wedyn, gofynnwyd i'r grwpiau sut roeddent wedi darganfod ynghylch y Gronfa Ymddiriedolaeth. **Clywodd mwyafrif y grwpiau (58%) am y Gronfa Ymddiriedolaeth trwy eu partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf lleol**. Cyflwynodd y sylwadau rai materion diddorol. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd:

- *"Clywyd amdano trwy bobl eraill yn unig, felly mae angen mwy o hysbysebu"*

Wrth reswm, mae hyn yn colli'r pwynt fod clywed trwy bobl eraill yn ffordd ddilys o hyrwyddo. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd arall:

- *"Nid wyf erioed wedi'i weld yn cael ei hysbysebu"*

Fodd bynnag, roedd y sawl a gyfwelwyd yn amlwg wedi dod yn ymwybodol o'r gronfa gan iddynt wneud cais llwyddiannus iddi. Er gwaetha'r gwrthwynebiadau hyn, gallai fod **rhywfaint o wybodaeth berthnasol i CGGC a LlCC ei hystyried o ran marchnata a chyhoeddusrwydd**, ac felly dylai'r sylwadau hyn (a atgynhyrchwyd yn llawn yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn) gael eu darllen a'u hystyried.

O ran **cyfraniad y grwpiau at nodau rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf**, canolbwyntiodd y rhan fwyaf o grwpiau ar agwedd **gweithio cydweithredol a chymunedol** Cymunedau yn Gyntaf, y cydnabyddwyd ganddynt ei fod yn arwain at welliannau yn eu cymuned. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Daeth â phobl leol at ei gilydd i wneud gweithgareddau gwahanol, a gwellodd morâl y gymuned."*
- *"Daeth â'r gymuned at ei gilydd yn wirioneddol – roedd 84 o blant wedi cofrestru i glybiau ieuenctid a chafodd gefnogaeth wych gan y gymuned."*

At hynny, **roedd 61% o'r grwpiau a holwyd ynghlwm â'u Partneriaeth leol**, yn gyffredinol trwy: fynychu cyfarfodydd, eistedd ar y bartneriaeth ei hun neu un o'i his-grwpiau, trwy gyswllt personol gyda staff, trwy

rannu safle, etc. Yn ogystal, nid oedd canran gymharol uchel - 15% - o'r ymatebwyr yn gwybod a oedd eu grŵp ynghlwm â'u partneriaeth leol neu beidio. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai grwpiau'n gweithio bron yn gwbl annibynnol, ac nid ydynt yn gweld bod ganddynt rôl yn adfywiad ehangach eu cymuned. Mewn geiriau eraill, nid ydynt yn poeni ynghylch o *ble* y daw'r cyllid, na *pham* y mae gan eu grŵp hawl iddo, cyhyd â'u bod nhw'n ei gael. Unwaith eto, mae'n werth ailadrodd, gan na chafodd y Gronfa Ymddiriedolaeth fyth ei sefydlu fel cronfa strategol, efallai bod agwedd felly yn ddealladwy a hyd yn oed yn dderbyniol, ac os cedwir y ffaith hon mewn cof, mae ffigur o 15% yn isel iawn mewn gwirionedd.

**Lle nad oedd grwpiau'n rhan o'u partneriaeth leol, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd nad oedd angen i'w prosiect fod ynghlwm â'r bartneriaeth mewn gwirionedd, ac y gallai weithredu'n ddigon da yn annibynnol.** Efallai bod hyn yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o bwrpas Cymunedau yn Gyntaf a sut i gymryd rhan yn y broses (fel y tystiwyd gan y ffaith fod un neu ddau ymatebydd yn credu nad oeddent mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf mewn gwirionedd). Efallai bod y diffyg dealltwriaeth posibl hwn mewn lleiafrif sylweddol o grwpiau am ddiben Cymunedau yn Gyntaf yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef.

## 3.5 Ceisiadau Aflwyddiannus

Elfen ychwanegol o'r gwerthusiad hwn oedd cynnal cyfweliadau ffôn wedi'u hwyluso gyda 15 prosiect a wnaeth gais aflwyddiannus i'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Er bod y Gronfa Ymddiriedolaeth yn gronfa hyblyg, hawdd mynd ati, mae nifer o resymau'n parhau pam y gallai cais am grant gael ei wrthod. Er enghraifft:

- Daw'r cais oddi wrth sefydliad cenedlaethol (bwriad y gronfa yw cefnogi grwpiau bach dan arweiniad y gymuned)
- Byddai'r prosiect yn cyflawni mantais gymunedol ehangach gyfyngedig
- Rhoddwyd gwybodaeth annigonol
- Mae'r grŵp yn gwneud cais am rywbeth y gellir ei gael o rywle arall (e.e. cais am lungopïwr, pan fydd llungopïo ar gael am ddim trwy'r Ganolfan Wirfoddol Sirol lleol)
- Ni fyddai'r prosiect o fantais i ardal Cymunedau yn Gyntaf
- Mae'r ymgeisydd wedi cael cyllid yn flaenorol tuag at eitem / prosiect tebyg
- Mae'r cais ar gyfer eitemau / gwaith / prosiectau sy'n gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol
- Mae'r cais yn ôl-weithredol
- Mae'r cais ar ran grŵp arall.

Amcan y cyfweliadau hyn felly oedd cael mewnwelediad i nifer o faterion, fel faint o brofiad o geisiadau grant blaenorol oedd gan grwpiau, ac i dynnu sylw at unrhyw ffyrdd y gallai grwpiau (os yn briodol) gael eu cefnogi i wneud ceisiadau llwyddiannus yn y dyfodol.

Dros 6 mlynedd y Gronfa Ymddiriedolaeth, ac o dros 6,000 o geisiadau, dim ond 190 o geisiadau oedd wedi'u gwrthod. Mae hyn yn dangos natur agored y gronfa yn ei hanfod, ac yn adlewyrchu ei natur anstrategol (petai gan y gronfa bwrpas strategol, byddai cyfraddau gwrthod yn debygol o fod yn sylweddol uwch).

Fel gyda'r 361 o gyfweliadau gyda phrosiectau, datblygodd yr ymgynghorwyr hapsampl haenedig o'r 190 o geisiadau aflwyddiannus, ac wedyn dewiswyd grwpiau ar hap o'r sampl hwn. Unwaith eto, roedd yr holiadur yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig yn ymdrin â'r materion allweddol y tynnwyd sylw atynt uchod, ac roeddent ar gael i brosiectau yn Gymraeg neu'n Saesneg.
Canlyniad y cyfweliadau hyn oedd casglu data ansoddol a meintiol yn ymwneud â'r 15 grŵp y gwrthodwyd eu ceisiadau. Caiff y canlyniadau allweddol eu cynnwys isod, gyda chofnod llawn o'r cyfweliadau a gafodd eu cynnwys yn y dogfennau atodiad cefnogol.

Nid oedd gan dros hanner **(9 allan o 15) y cyfweledigion unrhyw brofiad blaenorol o wneud cais am grantiau**. Er nad yw sampl o 15 yn ddigon i bennu patrwm clir, mae 9 ymateb negyddol i weld yn gymesur o uchel, a gallai diffyg profiad o bosibl fod yn ffactor allweddol wrth gyflwyno cais aflwyddiannus.
**Gwelodd 13 o'r 15 a gafodd eu cyfweld fod y broses ymgeisio'n dderbyniol o syml,** a dim ond 2 y'i cafodd yn anodd. Er na ellir cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol â'r rhai ar gyfer ceisiadau llwyddiannus, mae'n ymddangos bod cydraddoldeb, ac felly, nid yw'r cwestiwn hwn yn tynnu sylw at angen i wneud unrhyw newidiadau i'r broses ymgeisio.

Teimlai chwech o'r ymatebwyr nad oedd angen help arnynt, neu roeddent yn gwybod bod help ar gael os oedd angen. Gan y dylai'r ffurfiau cymorth hyn fod ar gael i bob ymgeisydd, **mae yna fater o bosibl naill ai gydag (a) deall pa gymorth sydd ar gael neu (b) diffyg parodrwydd i helpu ar ran y sawl sydd ynghlwm â Chymunedau yn Gyntaf yn lleol neu (c) diffyg parodrwydd i helpu ar ran CGGC neu Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf**. Mae dealltwriaeth wedi codi ei phen fel mater sawl gwaith, felly mae'n debygol o fod yn ffactor penderfynu ar gyfer rhai grwpiau. Mae asesu lefel y cymorth a gynigir gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i'w grwpiau lleol y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn. Yn ogystal, yn ystod cyfweliadau gyda swyddogion CGGC ac aelodau Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, rhoddwyd arwydd clir i'r ymgynghorwyr fod yr holl staff yn fodlon gweithio gyda grwpiau fel sy'n briodol i'w cefnogi trwy'r broses ymgeisio. Fodd bynnag, caiff y ffaith bod cymorth ar gael i'r holl ymgeiswyr ei nodi tua diwedd canllawiau'r cais yn unig, ac efallai na chaiff ei nodi mor glir ag y gallai fod.

Nododd pedwar o'r cyfweledigion nad oeddent yn glir ynghylch y rhesymau y cafodd eu cais ei wrthod, tra **dywedodd 11 o'r 15 o gyfweledigion eu bod yn glir ynghylch y rhesymau y cafodd eu cais ei wrthod**. Anfonir llythyr at bob ymgeisydd aflwyddiannus, gan roi rheswm dros wrthod, felly unwaith eto efallai bod hyn yn fater o ddehongli cymhwyster. Mae'r canllawiau cychwynnol a'r llythyr gwrthod hefyd yn nodi'n glir y gall yr ymgeisydd drafod y gwrthodiad yn fanylach gydag aelod o staff CGGC os dymunir, felly nid yw'n ymddangos bod unrhyw reswm gwirioneddol dros ddiffyg eglurder ar y mater.

**Nododd 11 o gyfweledigion y byddent yn hapus i ail-wneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn y dyfodol,** ac roedd 4 eisoes yn y broses o wneud hynny (efallai gyda dealltwriaeth well o'r meini prawf). Roedd dau o'r cyfweledigion yn ansicr, a dywedodd dau eu bod y bendant na fyddent yn ail-wneud cais.

## 3.6 Ymweliadau â Phrosiectau

Fel rhan o'r trydydd cam o'r broses werthuso, cynhaliwyd ymweliadau astudiaeth achos gyda 14 prosiect. (Sylwch fod 15 ymweliad wedi'u trefnu a'u cadarnhau gyda'r derbynyddion grantiau yn wreiddiol. Fodd bynnag, ni fynychodd un person gyfarfod fel y cytunwyd, ac yn anffodus nid oedd wedi gallu rhoi rhybudd am hyn yn sgil amgylchiadau personol. O fewn y raddfa amser, nid oedd modd aildrefnu'r ymweliad). Fodd bynnag, aeth gweddill y 14 ymweliad yn eu blaen yn llyfn, ac roedd yr ymgynghorwyr yn gallu siarad â derbynyddion y grantiau, ac mewn rhai achosion, â buddiolwyr y prosiect.

Amcan yr ymweliadau prosiect hyn oedd datblygu dealltwriaeth gliriach o'r mathau o weithgareddau yr oedd grwpiau'n gallu eu cyflwyno o ganlyniad i'w grant Cronfa Ymddiriedolaeth, cael dealltwriaeth gliriach o'r effaith ar fuddiolwyr (h.y. canlyniadau'r prosiect), trafod arfer da a'r gwersi a ddysgwyd, asesu safbwynt y grwpiau o'r broses ymgeisio, ac asesu ymglymiad y grwpiau gyda'u partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf lleol.

Ar gyfer yr ymweliadau prosiect, datblygwyd arweiniad o destunau a oedd yn canolbwyntio ar y prif faterion a nodwyd uchod. Roedd yr arweiniad testunau hwn yn fyrrach a chyda llai o fframwaith na'r holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweliadau ffôn: y nod oedd cael grwpiau i gymryd rhan mewn trafodaeth fanylach am lai o faterion. Fel gyda phob cyfweliad, cynigiwyd dewis o gyfweliad Cymraeg neu Saesneg i'r rhai a oedd yn cymryd rhan, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg ac argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Fel gyda'r cyfweliadau ffôn, defnyddiwyd hapsampl haenedig o brosiectau i ddewis y prosiectau i ymweld â nhw, a oedd yn ystyried ffactorau fel lleoliad daearyddol, maint y grantiau, a ffactorau perthnasol eraill. Dewiswyd prosiectau i ymweld â nhw ar hap o'r sampl haenedig hwn.

Canlyniad yr ymweliadau hyn oedd casglu o ystod o wybodaeth ansoddol yn ymwneud â'r 14 prosiect yr ymwelwyd â nhw. Datblygwyd y wybodaeth hon yn fformat astudiaeth achos, ac maent wedi'u cynnwys yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn. Caiff canlyniadau allweddol yr ymweliadau hyn eu dangos isod.

**Mathau o Weithgareddau a Gyllidwyd**

Roedd yr ymgynghorwyr yn gallu ymweld â grwpiau a oedd yn cyflwyno ystod eang o weithgareddau i grwpiau gwahanol mewn rhannau gwahanol o Gymru. Fel enghraifft, roedd y prosiectau'n cynnwys:

- Cwmni *majorettes* yng Nghaergybi
- Prosiect llety i gyn-droseddwyr digartref yn Llanelli
- Clwb paffio i bobl ifanc ym Mlaengwynfi
- Prosiect adfywio adeiladau yn Llwynypia
- Cylch chwarae yn y Fflint

Yn y 14 prosiect yr ymwelwyd â nhw, aeth arian y Gronfa Ymddiriedolaeth tuag at ystod o weithgareddau neu gyfarpar. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ffabrig ar gyfer gwisgoedd, llogi neuaddau a chostau cludiant
- Camera digidol, argraffydd a gliniadur
- Defnyddiau i ddatblygu ardal awyr agored yn ardd therapiwtig i'r trigolion
- Offer bowlio, tlysau, a ffioedd cystadlu ar gyfer chwaraewyr iau
- Cyfarpar i gleifion terfynol wael a sâl yn y tymor hir, fel comodau a nebiwlyddion
- Taith ddydd i aelodau clwb i bobl hŷn

Fel y gellir gweld o'r uchod, mae'r ymweliadau astudiaeth achos yn dangos bod **y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi cefnogi ystod o grwpiau i gyflwyno gweithgareddau amrywiol**. Er gwaethaf hyn, dylid nodi hefyd bod nifer o'r **prosiectau hyn hefyd yn awyddus i nodi eu bod nhw wedi ceisio codi arian eu hunain** ble bynnag bo hynny'n bosibl, ac nid dibynnu ar gymorth grant yn unig. Er enghraifft, cynhaliodd un grŵp ddisgos a gwerthiannau pen-bwrdd, tra defnyddiodd un arall amser gwirfoddolwyr i gael arian cyfatebol i mewn.

**Safbwyntiau Prosiectau o Broses y Gronfa Ymddiriedolaeth**

Yn ystod yr ymweliadau astudiaeth achos, trafodwyd materion fel cyhoeddusrwydd, y broses ymgeisio a gofynion monitro. Gwelodd yr ymgynghorwyr, fel gyda'r 361 o gyfweliadau ffôn, nad oedd gan y sawl a gafodd eu cyfweld **unrhyw bryderon mawr am ystod y prosesau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Ymddiriedolaeth**.

Er enghraifft, **cydnabyddwyd bod y ffurflen gais yn syml** (hyd yn oed ar gyfer y rhai heb fawr o brofiad o wneud cais am grantiau), ac roedd y rhai yr oedd arnynt angen cymorth gyda'r ffurflen yn gallu mynd ato trwy eu partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf lleol neu wrth y llinell gymorth yn CGGC. Soniodd y prosiectau a gafodd eu cyfweld hefyd am y **broses cyflawni gyflym**, ynghyd â'r ffaith **bod y gwaith monitro yn syml**.

Pan ofynnwyd iddynt sut roeddent wedi clywed am y grant, **clywodd mwyafrif y prosiectau yr ymwelwyd â nhw am y Gronfa Ymddiriedolaeth trwy eu Partneriaeth leol**: mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau 361 o gyfweliadau ffôn y prosiectau. Pan drafodwyd y pwynt hwn ymhellach, nododd rhai cyfweledigion hefyd, fel y gwelsant hwy ef, bod y rhan fwyaf o'r grwpiau eraill yn eu hardal hefyd yn gwybod am y Gronfa Ymddiriedolaeth, ac yn gwybod sut i fynd ati. Mae hyn yn dangos, er y gwneir hynny mewn ffordd ansoddol, bod rhwydweithiau lleol yn effeithiol wrth ledu'r neges am gyfleoedd cyllido.

**Ymglymiad gyda Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf**

Fel y nodwyd yn flaenorol, darganfu mwyafrif y grwpiau yr ymwelwyd â nhw (yn ogystal â'r 361 a ffoniwyd) am y Gronfa Ymddiriedolaeth trwy eu partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf lleol. I rai grwpiau, roedd y berthynas hon gyda'r Bartneriaeth yn barhaus, ond i eraill, roedd yr ymglymiad yng ngwaith eu Partneriaeth leol yn fach iawn.

Er enghraifft, gweithiodd un grŵp yr ymwelwyd ag ef yn agos gyda'i Bartneriaeth leol er mwyn sicrhau bod y grŵp yn rhan o'r gymuned leol. Roedd un arall yn gweithio gydag aelod o staff y Bartneriaeth er mwyn penderfynu pa grantiau y dylent wneud cais amdanynt, tra cynghorodd a chefnogodd y Bartneriaeth nhw hefyd gyda gweithgareddau hysbysebu a chodi arian. At ei gilydd, **teimlai'r grwpiau yr ymwelwyd â nhw y bu eu partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol yn effeithiol wrth sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r gymuned leol** ac, mewn rhai achosion, roedd yr unigolion ynghlwm â'u grŵp eu hunain a'r Bartneriaeth leol, ac felly'n sicrhau cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad.

Yn ystod yr ymweliadau, nododd un neu ddau grŵp nad oeddent yn rhan o'u partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf lleol, ond roedd hyn yn sgil diffyg amser ar ran gwirfoddolwyr y grŵp, yn hytrach nag unrhyw anawsterau neu faterion penodol rhwng y ddau sefydliad.

Ar y cyfan, felly, gwelodd yr ymgynghorwyr fod **y berthynas rhwng prosiectau a Phartneriaethau yn dda**, ac mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg ffôn ehangach.

**Effaith y Gronfa Ymddiriedolaeth ar y Grŵp**

Teimlai'r holl **brosiectau yr ymwelwyd â nhw bod y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu grwpiau a'u gweithgareddau**. Roedd manteision y grant y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys:

- Tynnu ymaith nifer o bwysau ariannol
- Prynu cyfarpar, gan arwain at gynnydd wrth hyrwyddo'r grŵp / ei weithgareddau, gan arwain at fwy o wirfoddolwyr
- Mwy o gynaliadwyedd trwy recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol
- Llwyddiant un prosiect a gyllidir gan yr Ymddiriedolaeth yn arwain at ddatblygu syniadau prosiect eraill gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Grwpiau'n teimlo'u bod yn gallu sefydlu eu hunain mewn ffordd fwy proffesiynol
- Cafodd aelodaeth estynedig o grwpiau fel costau offer, teithio etc eu tynnu ymaith

Roedd y grwpiau i gyd yn awyddus i bwysleisio y gallai grant bach (yn aml o dan £1,000) a fyddai'n cael ei wario ar gyfarpar sylfaenol, wneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd yr oedd gweithgareddau'n cael eu rhedeg. Er enghraifft, prynodd un grŵp gamera digidol a gliniadur, a'i galluogodd i sefydlu ei wefan ei hun. Creodd hyn gryn ddiddordeb yn lleol a helpodd recriwtio mwy o wirfoddolwyr (i'r graddau y gall y grŵp nawr gyflwyno'i holl weithgareddau o ddydd i ddydd trwy ddefnyddio oriau gwirfoddolwyr), ond rhoddwyd nhw mewn cysylltiad hefyd â grŵp arall yn Lloegr gyda diddordebau tebyg. At hynny, cyflwynodd grŵp arall un prosiect cymunedol yn llwyddiannus ac, o gael ei hybu gan y llwyddiant hwn, roedd bellach yn datblygu mwy o syniadau mewn cydweithrediad â grwpiau cymunedol eraill yn lleol. Mae'r enghreifftiau hyn, er eu bod yn ansoddol, yn dynodi y gall **llwyddiant bach gyda'r Gronfa Ymddiriedolaeth arwain grwpiau at weithgareddau eraill** neu gryfhau eu trefn bresennol eu hunain.

**Effaith y Gronfa Ymddiriedolaeth ar Fuddiolwyr**

Yn ystod yr ymweliadau â rhyw hanner y prosiectau, roedd yr ymgynghorwyr yn gallu siarad â buddiolwyr – h.y. y bobl hynny a fanteisiodd ar y gweithgareddau neu'r gwasanaethau a gyflawnwyd gan y grŵp. Roedd y gweithgareddau'n amrywio, ac felly y mae'r mathau o fanteision a ddaeth yn eu sgil. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau:

- Roedd y grŵp yn gallu dod â merched lleol at ei gilydd ac i sefydlu cyfeillgarwch rhwng ysgolion gwahanol
- Effeithiodd y grŵp yn gadarnhaol ar rieni, yn enwedig rhieni sengl, gan eu bod nhw bellach wedi creu rhwydwaith cymdeithasol anffurfiol rhyngddynt eu hunain
- Bu gwirfoddolwyr y grŵp yn gallu adeiladu ar berthynas dda gyda'r bobl ifanc trwy ddefnyddio'r cyfleusterau, a wnaeth ymddiried ynddynt yn aml mewn ffordd na fyddent yn ei gwneud gyda'u teuluoedd eu hunain o bosibl
- Roedd y grŵp wedi cynnwys mwy o bobl ifanc lleol yn ei weithgareddau, a gwelodd gwymp cyfatebol mewn fandaliaeth ar ei safle.
- Magwyd hyder buddiolwyr y grŵp yn sylweddol trwy lwyddiant ei brosiect cyntaf
- Datblygodd buddiolwyr y grŵp y gallu i gydweithio i symud syniadau ymlaen
- Roedd un buddiolwr wedi magu cymaint o hyder roeddent bellach yn cynllunio i sefydlu eu busnes eu hunain
- Roedd un buddiolwr, a ddaeth i'r grŵp fel bachgen ifanc anystwyth, bellach yn cael ei asesu ar gyfer sgwad Prydain ar gyfer Gemau Olympaidd 2012.

Fel y gellir gweld o'r uchod, **gwnaeth grwpiau a phrosiectau gwahanol effeithiau gwahanol ar eu buddiolwyr**. I gael manylion ar yr holl grwpiau hyn, cyfeiriwch at yr Astudiaethau Achos yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

**Arfer Da Nodedig**

Sylwch yr eir i'r afael ag arfer da yn llawn mewn adran ar wahân o'r adroddiad hwn. Mae'r adran isod yn rhoi amlinelliad syml o'r mathau o elfennau o'u gwaith yr oedd y grwpiau eu hunain yn eu nodi fel arfer da. Fel o'r blaen, gellir dod o hyd i fwy o fanylion o astudiaethau achos unigol yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

- Cynwysoldeb – aeth y grwpiau'n aml i ryw bellter i sicrhau nad oedd darpar fuddiolwyr yn cael eu hepgor yn sgil cost cludiant, offer etc. Teimlwyd bod hyn yn hynod bwysig, o gofio bod grwpiau'n gweithredu yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru
- Cynwysoldeb – ceisiodd llawer o grwpiau gymryd rhan mewn trawstoriad eang o'r gymuned (e.e. gweithio gyda'r grŵp ASBO lleol, annog trigolion i ddefnyddio cyfleusterau'r grŵp etc)
- Codi arian – roedd y grwpiau'n awyddus i fynd at grantiau lle bo hynny'n bosibl, ond cyflawnwyd gwaith codi arian ganddynt eu hunain e.e. trwy redeg siop elusen, cynnal disgos etc.
- Cyhoeddusrwydd – defnyddiodd rhai grwpiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth i ddatblygu gwefannau ac arfau hyrwyddo eraill, er mwyn recriwtio mwy o wirfoddolwyr
- Ymglymiad buddiolwyr - sicrhaodd rhai grwpiau bod eu buddiolwyr yn gyfrifol am ddatblygu a symud eu syniad prosiect ymlaen

Fel y gellir gweld o'r manteision a'r effeithiau a nodwyd uchod, galluogodd yr ymweliadau astudiaeth achos i'r ymgynghorwyr ddatblygu dealltwriaeth fanylach o'r mathau o weithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni, sut roedd y gweithgareddau'n effeithio ar fuddiolwyr, ac elfennau arfer da y gellid eu rhannu'n ddefnyddiol gan grwpiau eraill. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n bwysig cofio y gall grant bach gael effaith sylweddol ar grŵp cymunedol, gan arwain at weithgareddau ychwanegol neu feithrin gallu'r grŵp. Mewn geiriau eraill, ni wnaeth effaith y Gronfa Ymddiriedolaeth stopio gyda phrynu'r gliniadur, na darparu offer bowlio ar gyfer chwaraewyr ifanc.

# 4. Casgliadau ac Argymhellion

## 4.1 Cwestiynau Ymchwil

Diben y gwerthusiad hwn oedd ateb pedwar cwestiwn ymchwil a osodwyd gan LlCC. Trafodwyd a dadansoddwyd y cwestiynau hyn, (a) i (d) isod, yn ystod proses ymchwil meintiol ac ansoddol Wavehill, a cheisiodd ein casgliadau (fel yr amlinellwyd yn y tablau ar y tudalennau blaenorol) ddod â themâu a materion cyffredin at ei gilydd. Cymer yr adran ganlynol y canfyddiadau ymchwil ac mae'n eu gosod nhw yn erbyn y pedwar cwestiwn ymchwil a ofynnwyd gan LlCC.

**a) Pa mor effeithlon ac effeithiol yw gweinyddiaeth bresennol Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf? A gaiff gweinyddiaeth y gronfa ei chynnal yn dda gan roi gwerth da am arian?**

O'u hystod o ymchwil gyda rhanddeiliaid a phrosiectau, cred y gwerthuswr fod y drefn bresennol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae tîm o 6 aelod o staff yn rhedeg y rhaglen, sef: aseswr a threfnydd grantiau; uwch aseswr grantiau a; swyddog gweithrediadau. Mae'r rolau hyn wedi'u mireinio gydag amser, ac mae ymgynghoriadau gyda'r tîm staff yn nodi eglurder y rolau a'r cyfrifoldebau.

Mae'r broses gweinyddu ac asesu wedi datblygu gydag amser, a chaiff rhanddeiliaid sy'n rhan o'r panel asesu grantiau bellach grynodeb tudalen o bob cais, ynghyd â system sgorio syml ar gyfer pob cais. Mae hyn yn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu hasesu trwy ddefnyddio dull safonol ar draws y bwrdd, ac mae symlder y system hefyd yn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau'n gyflym.

Fel y gellir gweld o adran flaenorol yr adroddiad, nid oedd gan y rhanddeiliaid unrhyw bryderon am reoli a gweinyddu'r gronfa, y maen nhw'n credu ei bod yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol. Teimlai'r rhanddeiliaid y cafwyd un neu ddwy broblem gychwynnol yn gysylltiedig â'r meini prawf cymhwyster yn nyddiau cynnar y gronfa, ond cafodd y rhain eu datrys cyn gynted â phosibl a sefydlwyd paramedrau clir ar gyfer cyllido.

Yn ogystal, nododd rhai aelodau o'r panel asesu grantiau rai materion gyda'r system canolwyr yn y dyddiau cynnar. Roedd y materion hyn yn canolbwyntio o amgylch y ffaith bod canolwyr yn aml yn teimlo mai eu rôl nhw oedd rhoi sylwadau ar ansawdd / addasrwydd y prosiect a oedd yn gwneud cais, ond mewn gwirionedd, eu rôl yn syml yw nodi eu bod yn gwybod am y grŵp a gallant gadarnhau ei fod yn un cyfreithlon.

Roedd sylwadau rhanddeiliaid mewn perthynas â gweinyddu'r gronfa ymddiriedolaeth yn cynnwys:

- *"Rwy'n credu mai Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yw elfen fwyaf llwyddiannus rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n dweud rhywbeth cadarnhaol iawn am ei rheolaeth a'i gweinyddiaeth"*
- *Patrwm ydyw. Mae'n broses hollol agored, mae'r tîm yn ddiwyd iawn. Cafwyd un neu ddwy broblem gychwynnol, ond cafodd pob un ohonynt eu datrys yn y dyddiau cynnar"*
- *Mae CGGC yn rheoli'r gronfa hon yn effeithiol iawn."*

Yn ogystal, teimlai'r prosiectau hefyd bod gweinyddiaeth y cynllun yn effeithiol ac yn effeithlon. Gwelodd 88% o'r prosiectau a gyfwelwyd fod y broses ymgeisio'n dderbyniol o glir a syml, tra teimlai 2% yn unig fod y broses yn aneglur neu'n ddryslyd. At hynny, gwelodd 87% fod cyflymder y broses gwneud penderfyniadau'n dderbyniol neu'n gyflym, tra teimlai 4% yn unig fod y broses yn araf. Yn ogystal, pan ofynnwyd iddynt beth fyddent yn ei newid am y broses ymgeisio, nododd mwyafrif y prosiectau (76%) na fyddent yn newid unrhyw beth, heb unrhyw batrymau'n ymddangos o'r 24% sy'n weddill.

Felly, o'r ddwy ochr - prosiectau a rhanddeiliaid – gwelir bod y Gronfa Ymddiriedolaeth yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol, ac nad oes angen unrhyw newidiadau mawr i'r prosesau gweinyddu ac ymgeisio. Trafodir un neu ddau faes bach lle gellid gwneud newidiadau yn yr adran argymhellion sy'n dilyn.

At hynny, o ystod o ymchwil gyda rhanddeiliaid a phrosiectau, dangoswyd bod y drefn bresennol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn cynnig gwerth da am arian. Mae gorbenion ar gyfer y rhaglen (costau staffio a gweinyddu) yn rhedeg ar tua 10%, sy'n cymharu'n dda â chostau ar gyfer cronfeydd grantiau tebyg eraill.

At hynny, mae'n bosibl datblygu rhai ystadegau'n ymwneud ag oriau staff fesul cais, sy'n gallu cynnig cymariaethau bras iawn rhwng prosiectau. Datblygwyd hyn fel a ganlyn:

**Y Gronfa Ymddiriedolaeth – cyfrifiad bras o'r oriau gweinyddu fesul cais**

Ar gyfer 2001 i 2004, gweinyddiaeth y Gronfa Ymddiriedolaeth yw 5 swydd = 175 awr yr wythnos
Ar gyfer 2004 i 2007, gweinyddiaeth y Gronfa Ymddiriedolaeth yw 6 swydd = 210 awr yr wythnos

175 awr yr wythnos dros 3 blynedd (46 wythnos waith y flwyddyn) = 24,150 awr
210 awr yr wythnos dros 3 blynedd (46 wythnos waith y flwyddyn) = 28,980 awr

Cyfanswm oriau gweinyddol = 53,130
Rhennir gan ryw 6,500 o geisiadau = 8.2 o oriau gweinyddol fesul cais

Dylid pwysleisio *nad* ystyrir bod hwn yn swm union – amcangyfrifon yw oriau staff y flwyddyn, fel nifer y ceisiadau. Fodd bynnag, mae'r cyfrifiad hwn yn rhoi syniad bras o effeithlonrwydd gweinyddol o gymharu â grantiau eraill. Yn yr achos hwn, gallwn weld, pan fydd yr un cyfrifiad yn berthnasol i gronfeydd eraill, mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

| Cynllun Grant | Oriau gweinyddol fesul cais |
|---|---|
| Cronfa Newid Mân Derby | 13.5 |
| Cynllun Grantiau Cyngor Cymunedol Partneriaeth Peckham | 9.4 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf | 8.2 |

*Ffynhonnell: Wavehill Consulting 2006*

Felly, o ran y gost gweinyddu, mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn cynnig gwerth da am arian ac nid oes angen unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y gronfa ei gweinyddu.

O ran mynd i'r afael â gwerth am arian mewn ffyrdd eraill – e.e. cost fesul allbwn – nid yw asesiad felly'n bosibl i'r Gronfa Ymddiriedolaeth, gan nad oes allbynnau wedi'u monitro ar gyfer y prosiectau.

**b) A ddefnyddir grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn effeithiol i fodloni amcanion Cymunedau yn Gyntaf?**

Wrth reswm, mae hwn yn gwestiwn anodd ei ateb gan na sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth fel cronfa strategol, ac felly nid ei fwriad oedd cyflwyno gweithgareddau yn erbyn nodau Cymunedau yn Gyntaf. Nod y Gronfa Ymddiriedolaeth yn syml oedd galluogi grwpiau yn y gymuned yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i fynd at grantiau bach yn gyflym ac yn hawdd. Fodd bynnag, cydnabyddwyd hefyd, fel sgil-gynnyrch dosbarthu grantiau, bod y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi cefnogi rhai o nodau Cymunedau yn Gyntaf i ryw raddau.

Felly, roedd yr ymgynghorwyr yn wynebu'r dasg anodd o adolygu effaith grwpiau a oedd wedi cael arian yr Ymddiriedolaeth, a chysylltu'r effeithiau hyn â nodau rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Mae hon yn broses anfanwl, a gellir ystyried canfyddiadau'n fynegol yn hytrach nag yn absoliwt yn unig. Yn ogystal, nid yw rhai o nodau Cymunedau yn Gyntaf – er enghraifft, sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno mewn ffyrdd sy'n fwy ymatebol ac yn fwy atebol yn lleol – yn faterion y gellid disgwyl i grwpiau lleol bach gymryd rhan ynddynt, ac mae'n bendant nad ydynt yn rhan o'r meini prawf wrth asesu ceisiadau i'r Gronfa Ymddiriedolaeth.

Fodd bynnag, os byddwn yn ceisio datblygu rhai cysylltiadau rhwng y ddwy raglen, i ddechrau mae angen i ni nodi nodau rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Dyma nhw:

- Magu hyder a chodi hunan-barch pobl sy'n byw yn y gymuned
- Codi incymau pobl leol
- Gwella iechyd a lles
- Annog a gwella addysg a hyfforddi sgiliau ar gyfer gwaith
- Creu swyddi
- Gwneud cymunedau'n ddiogel, yn gadarn ac yn rhydd o drosedd
- Sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno mewn ffyrdd sy'n fwy ymatebol ac yn fwy atebol yn lleol
- Gwellai tai ac ansawdd yr amgylchedd
- Annog dinasyddiaeth weithgar

Yn ail, mae angen i ni fod yn glir ynghylch nod y Gronfa Ymddiriedolaeth. Sef:

- Datblygu gallu grwpiau trwy grantiau bach i nifer fawr o sefydliadau bach dan arweiniad y gymuned *[sy'n gallu arddangos]:*
    - Manteision i'r gymuned / cyfraniad at adfywio'r ardal
    - Ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol
    - Cefnogi'r gymuned berthnasol
    - Defnyddio gwasanaethau / darparwyr lleol lle bo'n bosibl
    - Gwerth am arian
    - Canlyniadau syml ond mesuradwy clir

Fel y gellir gweld, nid oes cyfeiriad uniongyrchol o fewn nod y Gronfa Ymddiriedolaeth at nodau Cymunedau yn Gyntaf, ond mae'r is-feini prawf yn cyd-fynd â rhai o nodau Cymunedau yn Gyntaf i ryw raddau.

Yn ogystal, ni chaiff unrhyw gyfraniad tuag at y nodau hyn ei fesur trwy werthusiad / monitro safonol y rhaglen, gan fod y broses werthuso ar ddiwedd y prosiect wedi'i dylunio i wneud y gofynion lleiaf posibl ar grwpiau. Felly, nid oes ffordd ffurfiol, feintiol, lle caiff cyfraniad prosiectau a gyllidir gan yr Ymddiriedolaeth at nodau Cymunedau yn Gyntaf ei fesur a'i gofnodi'n ganolog trwy'r trefniadau gweinyddol presennol.

Er mwyn symud yr elfen hon o'r gwerthusiad ymlaen, amlinellwyd prif nodau rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf yn gryno i gyfweledigion, er mwyn sicrhau y cânt eu deall yn gyffredinol. Wedyn, gofynnwyd i'r cyfweledigion sut cyfrannodd eu prosiectau at y nodau hyn, os o gwbl. Roedd y cwestiwn hwn yn ansoddol, a sicrhaodd bod grwpiau'n gallu trafod canlyniadau 'meddalach' rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, fel hyder a hunan-barch, ac iechyd a lles. O'r trafodaethau ansoddol hyn, gwelwyd bod y rhan fwyaf o grwpiau'n canolbwyntio ar agweddau ymglymiad cydweithredol a chymunedol Cymunedau yn Gyntaf, y maen nhw'n cydnabod ei fod yn arwain at welliannau yn eu cymuned. Caiff y ddwy thema hyn eu hailadrodd yn aml ar hyd y rhestr lawn o sylwadau, a gofnodir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

Yn ogystal, dylid cofio bod mwyafrif y grwpiau'n dod i mewn i broses y Gronfa Ymddiriedolaeth trwy rwydwaith partneriaethau ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Bydd hyn yn cryfhau Cymunedau yn Gyntaf yn gyffredinol, ac felly'n cyfrannu at nodau ehangach y rhaglen. At hynny, er bod modd cwestiynu effeithiau cyllido dillad chwaraeon, dyweder, gall hyn gael effaith ehangach o safbwynt y grŵp. Er enghraifft: dillad chwaraeon = mwy o gyfranogiad = nifer o effeithiau eraill (llai o fandaliaeth, iechyd gwell, etc) = effeithiau pellach (llai o drethi) ac yn y blaen, gydag effaith domino.

Yn ogystal, gofynnwyd cwestiwn meintiol i grwpiau hefyd i nodi beth oedd prif thema neu ffocws eu prosiect. Cwestiwn amlddewis oedd hwn, gyda dewisiadau'n cysylltu'n ôl â nodau rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Nodwyd prif themâu prosiectau a gyllidir fel:

- 52% - Iechyd a lles / gweithgareddau hamdden

- 32% - Gweithgareddau a chefnogaeth gymunedol
- 2% - Cefn gwlad a'r amgylchedd
- 2% - Addysg a hyfforddiant
- 2% - Cludiant a chyfathrebu
- 1% - Tai
- 1% - Economi a chyflogaeth
- 8% - Arall

At hynny, trafodwyd gyda grwpiau hefyd pa rai o'r 4 maes allweddol – cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol – yr oeddent yn teimlo bod eu prosiect wedi cael effaith arnynt. Dyma'r canlyniadau:

- Teimlai 95% o brosiectau / grwpiau fod eu prosiect wedi esgor ar fanteision cymdeithasol
- Teimlai 45% fod eu prosiect wedi esgor ar fanteision diwylliannol
- Teimlai 17% fod eu prosiect wedi esgor ar fanteision economaidd
- Teimlai 16% fod eu prosiect wedi esgor ar fanteision amgylcheddol

Trwy'r gymysgedd hon o 3 chwestiwn, ansoddol a meintiol, gwelodd yr ymgynghorwyr fod prosiectau wedi gwneud rhai cyfraniadau at rai o nodau rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Er mwyn mesur yr effeithiau hyn yn gywir, byddai'n rhaid cynnal arolwg graddfa fawr o drigolion Cymunedau yn Gyntaf, ac mae hyn yn amlwg y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, gellir gwneud y crynodeb canlynol:

| Nod Cymunedau yn Gyntaf | Canlyniad y Gronfa Ymddiriedolaeth |
|---|---|
| Magu hyder a chodi hunan-barch pobl sy'n byw yn y gymuned | Roedd yr ymgynghorwyr yn gallu siarad â nifer o fuddiolwyr prosiectau yn ystod eu hymweliadau astudiaeth achos, a chanfuwyd bod nifer o'r buddiolwyr hyn wedi adrodd cynnydd mewn hunanhyder a hunan-barch. Yn ogystal, nododd 75% o'r grwpiau a holwyd gynnydd mewn gallu, gyda mwyafrif hyn wedi'i nodi'n fwy o hyder yn y grŵp |
| Codi incymau pobl leol | Teimlai 17% o'r prosiectau y cyfwelwyd â nhw bod eu gweithgareddau wedi esgor ar fanteision economaidd i'w hardal leol. |
| Gwella iechyd a lles | Canolbwyntiodd 52% o'r prosiectau y cyfwelwyd â nhw eu gweithgareddau ar iechyd a lles a gweithgareddau hamdden, tra credai 95% o'r grwpiau y cyfwelwyd â nhw bod eu prosiect wedi esgor ar fanteision cymdeithasol |
| Annog a gwella addysg a hyfforddi sgiliau ar gyfer gwaith | Nododd 2% o'r prosiectau a holwyd mai eu prif thema oedd addysg a hyfforddiant, tra teimlai 1% mai eu prif thema oedd economi a chyflogaeth. Yn ogystal, teimlai 17% fod eu prosiect wedi esgor ar fanteision economaidd i'w hardal leol |
| Creu swyddi | Nododd 17% o'r prosiectau y cyfwelwyd â nhw bod eu prosiect wedi esgor ar fanteision economaidd i'r ardal leol. Yn ogystal, dangosodd nifer fach o astudiaethau achos fod prosiectau'n creu swyddi (e.e. gweithwyr meithrinfeydd) yn yr ardal leol |
| Gwneud cymunedau'n ddiogel, yn gadarn ac yn rhydd o drosedd | Nododd nifer y prosiectau y cyfwelwyd â nhw yn ystod y broses astudiaeth achos bod eu gwaith wedi arwain at lai o droseddau a fandaliaeth yn yr ardal leol, y nodwyd ganddynt fod hyn wedi'i gydnabod gan yr heddlu lleol. |
| Sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno mewn ffyrdd sy'n fwy ymatebol ac yn fwy atebol yn lleol | Mae'r nod hwn y tu allan i gwmpas y Gronfa Ymddiriedolaeth |
| Gwella tai ac ansawdd yr amgylchedd | Nid yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn cyllido atgyweiriadau tai, ond nododd 2% o'r prosiectau mai eu prif ffocws oedd yr amgylchedd a chefn gwlad. |
| Annog dinasyddiaeth weithgar. | Dyma oedd y nod yr ymddangosai bod prosiectau'n cael yr effaith fwyaf arno. Wrth ystyried nodau Cymunedau yn Gyntaf a sut roeddent yn cyfrannu tuag atynt, roedd y rhan fwyaf o grwpiau'n canolbwyntio ar agweddau ymglymiad cydweithredol a chymunedol y rhaglen. Ailadroddwyd y thema hon yn aml ar hyd cyfweliadau gyda phrosiectau – gweler yr atodiadau i'r adroddiad hwn am restr lawn o'r sylwadau a wnaed. |

O'r uchod, gellir casglu bod y Gronfa Ymddiriedolaeth a'r prosiectau a gefnogir ganddi wedi gwneud rhyw fath o gyfraniad at rai o nodau Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig:

- Magu hyder a chodi hunan-barch pobl sy'n byw yn y gymuned
- Gwella iechyd a lles
- Annog dinasyddiaeth weithgar.

Fodd bynnag, dylid ailadrodd eto na sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i gyflawni'r nodau hyn ac felly ni ddylid barnu yn eu herbyn. Nid yw'n ofynnol i grwpiau nodi sut y gallant gyfrannu at y nodau hyn pan fyddant yn gwneud cais am gyllid, ac nid ydynt yn rhan o'r meini prawf asesu a ddefnyddir gan y panel asesu grantiau. Yn ogystal, dylid nodi hefyd bod nodau rhaglen ehangach Cymunedau yn Gyntaf yn cysylltu'n ôl â 7 dangosydd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Os astudiwn y rhain, gellir gweld bod prosiectau wedi cael effaith ym maes iechyd yn unig, ac wedyn dim ond mewn ffordd lac.

**c) I ba raddau y mae rôl bresennol partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn y Gronfa Ymddiriedolaeth yn briodol o ran y berthynas rhwng prosiectau'r Gronfa Ymddiriedolaeth â'r gwaith a gynhelir yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf?**

Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bwysig cofio bod y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu'n fwriadol i weithredu'n annibynnol ar broses ehangach Cymunedau yn Gyntaf.

Nid oes rhaid i grwpiau sy'n gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth gymryd rhan yng ngwaith eu partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn lleol, ac nid oes rhaid iddynt gael cymeradwyaeth y bartneriaeth ar gyfer eu cais. Yn ffurflen gais y Gronfa Ymddiriedolaeth, gofynnir i grwpiau a ydynt wedi cysylltu â'u Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf lleol, ond ni ddywedir wrthynt yn eglur i wneud hynny. Mae'r panel asesu grantiau'n ystyried bod cymorth partneriaeth ar gyfer grŵp a'i gais yn ddymunol, ond heb fod yn hanfodol. Yn ogystal, fel y trafodwyd yn flaenorol, ni sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i gyflawni nodau Cymunedau yn Gyntaf ac nid oes rhaid i brosiectau uniaethu eu nodau eu hunain gyda nodau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Caiff yr uchod ei ddeall yn glir gan randdeiliaid, y mae'r mwyafrif ohonynt yn hapus bod y ddwy raglen (Cymunedau yn Gyntaf a'r Gronfa Ymddiriedolaeth) yn parhau ar wahân.

Fodd bynnag, mynegodd cynrychiolwyr partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf rai pryderon am lefelau ymglymiad prosiectau yn eu partneriaethau lleol. Teimlai rhai cynrychiolwyr yn glir fod eu partneriaethau wedi'u hesgeuluso gan broses y Gronfa Ymddiriedolaeth, a bod hyn yn annheg i'r partneriaethau ac i grwpiau lleol eraill. Er gwaethaf hyn, dylid nodi bod partneriaethau'n gwneud gwaith da o hyrwyddo'r gronfa yn eu hardaloedd, gyda mwyafrif y prosiectau a gyllidwyd yn darganfod ynghylch y Gronfa Ymddiriedolaeth trwy eu partneriaethau lleol. Fodd bynnag, nid oes lle i fod yn hunanfodlon, a cheir cwmpas bob amser i godi lefelau ymwybyddiaeth y gronfa, fel y trafodwyd yn adran Argymhellion yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, dylem gyfeirio unwaith eto at y gyfradd ymateb isel oddi wrth bartneriaethau, gyda dim ond 31 ymateb yn dod i law o gyfanswm posibl o ryw 284: teimla Wavehill y byddai disgwyl i safbwyntiau cryf ar y mater hwn ar draws mwyafrif y partneriaethau greu cyfradd ymateb sylweddol uwch.

Unwaith eto, fel gyda chwestiwn ymchwil (b), mae cwestiwn (c) hefyd yn ceisio mesur rhywbeth nad oedd erioed yn rhan o gynllun a chyflawniad y Gronfa Ymddiriedolaeth. Bwriad y gronfa bob amser oedd gweithredu'n annibynnol, gyda grwpiau'n gallu gwneud cais yn uniongyrchol trwy CGGC, heb gefnogaeth nac ymglymiad eu partneriaeth leol. Yn glir, ni chaiff y dull hwn ei ffafrio gan rai partneriaethau, ond ni chafwyd ymateb aruthrol i'r ymgynghoriad i ddynodi bod hyn yn bwnc llosg ar draws pob partneriaeth.

At hynny, pan ofynnwyd i'r grwpiau pam nad oeddent wedi cymryd rhan yn eu partneriaeth leol, roedd yr atebion a roddwyd yn nodi bod grwpiau'n teimlo'n syml nad oedd wir angen i'w prosiect fod yn rhan o'r bartneriaeth, ac y gallai weithredu'n ddigon da yn annibynnol. Efallai bod hyn yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth ynghylch diben Cymunedau yn Gyntaf a sut i gymryd rhan yn y broses (fel y tystiwyd gan y ffaith fod un neu ddau ymatebydd yn credu nad oeddent mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf mewn gwirionedd) ond mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y caiff grwpiau eu rhedeg gan wirfoddolwyr gydag adnoddau amser cyfyngedig sy'n gorfod blaenoriaethu eu gweithgareddau.

I grynhoi felly, dylem ailadrodd na chafodd ymgeiswyr y Gronfa Ymddiriedolaeth fyth eu gorfodi i gysylltu â'u partneriaeth leol na derbyn rôl gyda nhw. Nid yw rhai partneriaethau'n hapus â hyn, ond nid digon i hyrwyddo newid trefn i'r rhaglen fel y mae.

**d) A yw'r egwyddorion a ddefnyddir i reoli'r dyraniad cyllid rhwng mathau o brosiectau a mathau o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (e.e. cymunedau diddordeb, ardaloedd ward seiliedig, ardaloedd LSOA a phocedi o amddifadedd) yn briodol, yn enwedig yng ngoleuni Mynegai Amddifadedd Lluosog newydd Cymru?**

Ar hyn o bryd, dyrennir y cyllid ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth bob blwyddyn fel a ganlyn:

- Partneriaethau ward seiliedig (100) – £20,000
- Pocedi o amddifadedd (32) - £10,000
- Cynigion dychmygus / cymunedau diddordeb (10) – £20,000


Nid yw'r system bresennol yn ystyried niferoedd y boblogaeth, ac felly'r dasg oedd asesu pa mor deg yw'r system bresennol ar sail gwariant fesul pen. Er mwyn gwneud hyn, cyfrifwyd y gwariant cymedrig fesul pen yn y tri math gwahanol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar sail blwyddyn ar flwyddyn. Cafodd y canlyniadau hyn eu plotio ar graff i ddangos patrymau dosbarthu. Sylwch i'r data ar gyfer 2002 / 2003 a 2003 / 2004 gael eu casglu at ei gilydd ar un daenlen yn cynnwys y ddwy flwyddyn. Felly, rhannwyd y ffigur sengl hwn yn ddau, er mwyn rhoi ffigur bras ar gyfer pob blwyddyn unigol. Mae'r ffigurau arian parod fel a ganlyn:

| Gwariant cymedrig fesul pen* | 2002/03 | 2003/04 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wardiau** | £11.20 | £11.20 | £6.55 | £6.51 | £6.27 |
| **Pocedi o amddifadedd*** | £12.41 | £12.41 | £6.70 | £6.65 | £6.95 |
| **Cymunedau Diddordeb / Cynigion dychmygus*** ** | £8.35 | £8.35 | £4.20 | £4.35 | £4.49 |

**Ar gyfer y cyfrifiad hwn, cymerwyd amcangyfrifon y boblogaeth o ddogfen y Cynulliad "Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2001"*
***Sylwch nad yw'r ffigurau ar gyfer ardaloedd pocedi o amddifadedd yn cynnwys y data ar gyfer ardal Pantyffynnon yn sir Castell-nedd Port Talbot. Y rheswm am hyn yw bod yr ardal wedi diogelu dros £30,000 o gyllid ym mlwyddyn gyntaf Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf (sy'n cefnogi prosiectau cyfalaf mawr gan mwyaf cyn i gyfyngiadau cyllid gael eu cyflwyno) ar gyfer poblogaeth o 21 person yn unig. Mae'r ystadegyn 'allanol' hwn yn sgiwio'r data ac yn rhoi cynrychiolaeth anghywir o'r patrymau cyllido cyffredinol, ac felly fe'i tynnwyd ymaith.*
**** Sylwch ar gyfer pedair o'r deg ardal cymunedau diddordeb / cynigion dychmygus, nid oes unrhyw ystadegau poblogaeth ar gael. Felly, mae'r ffigurau'n seiliedig ar chwe ardal yn unig.*

Mae'r graff canlynol yn rhoi cynrychiolaeth weledol o ddosbarthiad y cronfeydd.

**Gwariant cymedrig fesul pen o boblogaeth Cymunedau yn Gyntaf y flwyddyn**




*Ffynhonnell amcangyfrifon poblogaeth: "Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2001"*

Yn ogystal, mae dadansoddiad o wariant ar draws pob blwyddyn y rhaglen yn dangos:

| | Cymedr pob blwyddyn |
|---|---|
| **Wardiau** | £8.35 |
| **Pocedi o amddifadedd*** | £9.02 |
| **Cymunedau diddordeb / Cynigion dychmygus**** | £5.95 |
| **Pob ardal ar y cyd** | £7.77 |

*Ffynhonnell amcangyfrifon y boblogaeth: "Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2001"*

Unwaith eto, mae gwariant yn rhesymol o deg, ond unwaith eto mae cymunedau diddordeb ychydig ar ei hôl hi. Fodd bynnag, mae'r anghysonderau'n gymharol fach, ac ni ddylent achosi gormod o ofid.

Fel y gellir gweld o'r graff a'r tabl uchod, mae gwariant yn rhesymol o deg ar draws y tri math gwahanol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd. Mae cymunedau diddordeb / cynigion dychmygus ychydig ar ei hôl hi, ond mae'n bosibl y gallai eu cyfartaledd gael ei gynyddu petai ystadegau wedi bod ar gael ar gyfer y pedair ardal a soniwyd yn flaenorol.

O ran dosbarthu cronfeydd i'r dyfodol, o fis Ebrill 2007 ymlaen, mae 46 ardal LSOA newydd bellach yn gymwys i ddod yn rhan o broses Cymunedau yn Gyntaf ac, yn dilyn hynny, y Gronfa Ymddiriedolaeth.

Mae pob un o'r 46 ardal yn gymharol fach o ran maint a phoblogaeth, gan gynnwys ardaloedd is-ward yn bennaf. Cafodd pob un o'r 46 ardal hyn wahoddiad i anfon mynegiannau o ddiddordeb i LlCC ddod yn rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf, a gwnaeth pob un o'r 46 felly. Hyd yma, rhoddwyd cyllid cychwynnol i'r 22 ardal hyn symud ymlaen a dechrau gwaith paratoi yn lleol, ond nid ydynt eto'n rhan swyddogol o broses Cymunedau yn Gyntaf. Yn ogystal, mae rhai ardaloedd wedi dewis cysylltu eu hunain â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n bodoli, ond nid oes manylion cadarn ar gael ar hyn o bryd.

Fel y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, gan fod cyllid yn cael ei roi er mwyn i'r ardaloedd newydd ddechrau gwaith paratoi, bydd pob un yn cael dyraniad y Gronfa Ymddiriedolaeth o £5,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2007 / 2008.

O gofio bod y ffigurau a'r graffau a welir uchod yn nodi bod dosbarthiad presennol y cronfeydd ymhlith y 142 partneriaeth yn gymharol deg, argymhellir bod LlCC yn parhau â'r system ddyrannu bresennol. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y 46 LSOA newydd yn cael £5,000 o'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Gan y caiff cynlluniau eu datblygu a phartneriaethau eu sefydlu yn yr ardaloedd hyn, dylid codi'r swm hwn i £10,000 y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd newydd ar delerau cyfartal â'r pocedi o amddifadedd presennol. Er nad yw torri cronfeydd i fyny yn y ffordd hon yn wyddoniaeth, o leiaf mae'n gyson ar draws yr ardaloedd, ac mae dadansoddiad meintiol Wavehill wedi dangos ei fod yn arwain at ddosbarthiad rhesymol o deg o gronfeydd ar sail fesul pen.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi data'n ymwneud â'r 46 Ardal Gynnych Ehangach Haen Is newydd. Mae'r tabl yn dangos poblogaeth pob LSOA newydd a swm y gwariant angenrheidiol ym mlynyddoedd 1 a 2 er mwyn creu'r un gyfradd wariant neu 'fomentwm' ag y cyflawnwyd gan yr ardaloedd Pocedi o Amddifadedd presennol. Cyflawnir y ffigur hwn trwy luosi'r gwariant cymedrig ym Mlynyddoedd 1 a 2 ar gyfer yr ardaloedd Pocedi o Amddifadedd gan boblogaeth pob LSOA newydd, ac felly'n rhoi cyfanswm wedi'i bwyso yn ôl y boblogaeth. Mae'r gwariant a awgrymir yn amrywio rhwng £13,427 a £21,916.

| **Sir** | **Ardal Gynnyrch Ehangach Lefel 1** | **Poblogaeth** | **Gwariant amcanol ym mhob un o'r 2 flynedd gyntaf** |
|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr (4)** | Bracla 3 | 1,235 | £15,326 |
| | Corneli 4 | 1,482 | £18,391 |
| | Morfa 2 | 1,405 | £17,436 |
| | Sarn 1 | 1,222 | £15,165 |
| **Caerffili (2)** | Trecelyn 2 | 1,497 | £18,577 |
| | Penyrheol 4 | 1,419 | £17,609 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd (17)** | Adamsdown 2 | 1,634 | £20,277 |
| | Adamsdown 3 | 1,379 | £17,113 |
| | Adamsdown 5 | 1,098 | £13,626 |
| | Y Tyllgoed (Caerdydd) 5 | 1,488 | £18,466 |
| | Y Tyllgoed (Caerdydd) 7 | 1,606 | £19,930 |
| | Grangetown 4 | 1,501 | £18,627 |
| | Llanrhymni 6 | 1,576 | £19,558 |
| | Llanrhymni 7 | 1,677 | £20,811 |
| | Plasnewydd 7 | 1,567 | £19,446 |
| | Glan-yr-afon 1 | 1,549 | £19,223 |
| | Glan-yr-afon 2 | 1,545 | £19,173 |
| | Glan-yr-afon 3 | 1,518 | £18,838 |
| | Rhymni 5 | 1,414 | £17,547 |
| | Trowbridge 3 | 1,522 | £18,888 |
| | Trowbridge 4 | 1,508 | £18,714 |
| | Trowbridge 8 | 1,459 | £18,106 |
| | Trowbridge 10 | 1,344 | £16,679 |
| **Sir Gaerfyrddin** | Bigyn 4 | 1,709 | £21,208 |
| **Conwy** | Glyn (Conwy) 1 | 1,488 | £18,466 |
| | Glyn (Conwy) 2 | 1,371 | £17,014 |
| **Merthyr Tudful (2)** | Parc 3 | 1,526 | £18,937 |
| | Tref 1 | 1,563 | £19,396 |
| **Castell-nedd Port Talbot (5)** | Aberafan 2 | 1,267 | £15,723 |
| | Aberafan 3 | 1,082 | £13,427 |
| | Aberafan 4 | 1,505 | £18,677 |
| | Castell-nedd Gogledd 2 | 1,105 | £13,713 |
| | Castell-nedd De 2 | 1,707 | £21,183 |
| **Casnewydd** | Malpas 2 | 1,729 | £21,456 |
| **Rhondda Cynon Taf (4)** | Abercynon 2 | 1,766 | £21,916 |
| | Cwmbach 2 | 1,454 | £18,044 |
| | Tonyrefail Dwyrain 3 | 1,456 | £18,068 |
| | Ystrad 4 | 1,467 | £18,205 |
| **Abertawe** | Treforys 5 | 1,372 | £17,026 |
| | Treforys 7 | 1,325 | £16,443 |
| | Treforys 9 | 1,511 | £18,751 |
| | San Tomos 1 | 1,647 | £20,439 |
| | Sgeti 4 | 1,569 | £19,471 |
| **Torfaen** | Blaenafon 2 | 1,445 | £17,932 |
| **Bro Morgannwg** | Court 3 | 1,601 | £19,868 |
| **Wrecsam** | Hermitage 2 | 1,190 | £14,7670 |
| **Cyfanswm** | | | **£837,675.00** |

*Ffynhonnell: Systemau rheoli gwybodaeth CGGC a "Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2001" (cyfarwyddiaeth ystadegau LlCC)*

Mae'r tabl canlynol yn dangos cymhariaeth rhwng canran pob prosiect ym mhob sir ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth a'r Gronfa Gerddoriaeth.

Mae'r data isod yn dangos ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth, mae ystod y prosiectau ar draws siroedd yn amrywio o uchafbwynt o 14.69% i RhCT i lawr i 0.62% ar gyfer Conwy. Mae hwn yn eang ei ystod yn glir, ond yn adlewyrchu canolbwynt ardaloedd cymwys Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf ar draws y siroedd.

Gellir dod o hyd i ystod debyg ei hamrediad ar gyfer y Gronfa Gerddoriaeth, lle mae Blaenau Gwent yn cofnodi'r ganran uchaf o brosiectau'r Gronfa Gerddoriaeth (15.22% o bob prosiect), lle mae Pen-y-bont ar

Ogwr, Sir y Fflint a Bro Morgannwg heb gofnodi unrhyw un o brosiectau'r Gronfa Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth ac mae Conwy, Ynys Môn a Phowys wedi cofnodi 1% o brosiectau'n unig.

| Sir | % CYCG* o gyfanswm y prosiectau | % CYC* o gyfanswm y prosiectau | % CYCG o gyfanswm y gwariant | % CYC o gyfanswm y gwariant |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 8.58% | 15.22% | 8.23% | 17.11% |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2.73% | | 3.15% | |
| **Caerffili** | 9.65% | 13.04% | 12.04% | 11.41% |
| **Caerdydd** | 4.08% | 9.78% | 3.74% | 8.75% |
| **Sir Gaerfyrddin** | 4.34% | 4.35% | 5.10% | 7.34% |
| **Ceredigion** | 1.75% | 3.26% | 1.38% | 2.36% |
| **Conwy** | 0.62% | 1.09% | 0.60% | 0.56% |
| **Dinbych** | 1.51% | 2.17% | 1.56% | 2.20% |
| **Sir y Fflint** | 2.67% | | 2.34% | |
| **Gwynedd** | 5.96% | 3.26% | 6.08% | 2.50% |
| **Ynys Môn** | 4.93% | 1.09% | 4.88% | 0.86% |
| **Merthyr** | 6.82% | 3.26% | 6.37% | 8.63% |
| **Mynwy** | 0.54% | 3.26% | 0.42% | 1.50% |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 10.48% | 3.26% | 12.14% | 2.18% |
| **Casnewydd** | 5.76% | 3.26% | 4.34% | 4.73% |
| **Sir Benfro** | 2.70% | 3.26% | 2.66% | 1.67% |
| **Powys** | 2.19% | 1.09% | 2.20% | 0.52% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 14.69% | 13.04% | 13.77% | 10.25% |
| **Abertawe** | 3.76% | 9.78% | 3.69% | 10.42% |
| **Torfaen** | 2.61% | 4.35% | 1.87% | 4.23% |
| **Bro Morgannwg** | 0.72% | | 0.79% | |
| **Wrecsam** | 2.90% | 2.17% | 2.64% | 2.78% |

*Ffynhonnell: Systemau rheoli gwybodaeth CGGC a "Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2001" (cyfarwyddiaeth ystadegau LlCC)*

*CYCG – Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf
*CYC – Cronfa Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r ystadegau allweddol sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Ymddiriedolaeth, gan dynnu at ei gilydd ganfyddiadau tablau, graffau blaenorol etc.

**Crynodeb Ystadegau – Tabl Cynghrair**

| Gradd | Sir | Gwariant fesul pen yn ardaloedd Cymunedau yn 1af |
|---|---|---|
| **1** | **Bro Morgannwg** | £149.41 |
| **2** | **Sir Benfro** | £96.22 |
| **3** | **Ynys Môn** | £74.60 |
| **4** | **Gwynedd** | £61.42 |
| **5** | **Pen-y-bont ar Ogwr** | £50.70 |
| **6** | **Castell-nedd Port Talbot** | £49.50 |
| **7** | **Powys** | £40.24 |
| **8** | **Torfaen** | £35.76 |
| **9** | **Caerffili** | £33.78 |
| **10** | **Sir Gaerfyrddin** | £33.31 |
| **11** | **Wrecsam** | £29.90 |
| **12** | **Rhondda Cynon Taf** | £28.68 |

| | | |
|---|---|---|
| **13** | **Sir y Fflint** | £27.79 |
| **14** | **Merthyr Tudful** | £26.45 |
| **15** | **Sir Ddinbych** | £25.44 |
| **16** | **Blaenau Gwent** | £24.06 |
| **17** | **Ceredigion** | £19.46 |
| **18** | **Casnewydd** | £18.10 |
| **19** | **Sir Fynwy** | £16.18 |
| **20** | **Caerdydd** | £13.83 |
| **21** | **Abertawe** | £12.47 |
| **22** | **Conwy** | £10.47 |

*Ffynhonnell: Systemau rheoli gwybodaeth CGGC a "Cymunedau yn Gyntaf: Llinell Sylfaen 2001" (cyfarwyddiaeth ystadegau LlCC)*

Fel y gellir gweld o'r uchod, ceir canlyniadau nodedig ym Mro Morgannwg lle creodd grwpiau mewn dwy boced o amddifadedd ar wahân ddyraniad fesul pen o £149.41. Fodd bynnag, anghysondeb yw'r canlyniad hwn, ac ni chaiff ei ailadrodd fel patrwm mewn mannau eraill - h.y. nid yw siroedd gyda niferoedd uwch o bartneriaethau pocedi o amddifadedd (neu unrhyw fath arall o bartneriaeth) o reidrwydd yn creu dyraniadau uwch fesul pen na siroedd eraill (gweler y Cwestiynau Ymchwil ac adran Argymhellion yr adroddiad hwn i gael rhagor o fanylion).

Fodd bynnag, efallai y byddai disgwyl dod o hyd i'r dyraniad uwch fesul pen yn Rhondda Cynon Taf a Chaerffili, y mae ganddynt niferoedd cymharol fawr o bartneriaethau. Mae deall yn glir y rhesymau am lefelau isel o geisiadau y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn (byddai angen arolwg lleol graddfa fawr o grwpiau gwirfoddol a chymunedol a sefydliadau rhanddeiliaid) ac felly mae Wavehill yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid, sy'n nodi bod amgylchiadau lleol wedi newid yn yr ardaloedd hyn, ac mae disgwyl i gynnydd mewn ceisiadau ddilyn.

## 4.2 Argymhellion

### 4.2.1 Gwerthusiad o'r Gronfa Ymddiriedolaeth

**Mater:** Roedd pob parti a gyfwelwyd yn glir nad bwriad y Gronfa Ymddiriedolaeth oedd bod yn gronfa strategol; ei nod yn syml oedd galluogi cymunedau yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i fynd at grantiau bach yn gyflym ac yn hawdd. Roedd pob un ohonynt yn glir na sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i gyflawni nodau Cymunedau yn Gyntaf ond, fel sgil-gynnyrch dosbarthu grantiau, mae wedi cefnogi rhai o'r nodau hyn i ryw raddau. Mae'r ymgynghorwyr wedi casglu bod y Gronfa Ymddiriedolaeth a'r prosiectau a gyllidir ganddi wedi gwneud rhyw fath o gyfraniad at rai o nodau Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig magu hyder, gwella iechyd a lles, ac annog dinasyddiaeth weithgar. Fodd bynnag, ailadroddwn eto na sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i gyflawni nodau Cymunedau yn Gyntaf, nid oes angen i grwpiau nodi sut y gallant gyfrannu at y nodau hyn pan fyddant yn gwneud cais am gyllid, ac nid ydynt yn rhan o'r meini prawf asesu a ddefnyddir gan y panel asesu grantiau.

**Tystiolaeth:** Ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod elfen gwaith maes y gwerthusiad hwn, yr adolygiad desg seiliedig o systemau ymgeisio.
**Argymhelliad:** Nad yw nodau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu defnyddio fel meini prawf i farnu llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y Gronfa Ymddiriedolaeth.

### 4.2.2 Cymorth i Grwpiau Gyflwyno Ceisiadau

**Mater:** Nid oedd ymgeiswyr aflwyddiannus bob amser yn ymwybodol bod cymorth ar gael iddynt. Mae cymorth ar gael i ymgeiswyr, ond caiff hyn ei nodi tua diwedd y canllawiau ymgeisio yn unig, ac nid yw mor glir ag y gallai fod.

**Tystiolaeth:** Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid a chydag ymgeiswyr aflwyddiannus, adolygiad o'r canllawiau ar gyfer y gronfa.

**Argymhelliad:** Bod y cynnig o gymorth yn y canllawiau'n cael ei ail-eirio er mwyn sicrhau eglurder, er enghraifft: "Pwy all fy helpu i gyda'r cais hwn" neu ryw eiriad tebyg.

### 4.2.3 Cynaliadwyedd y Grwpiau (1)

**Mater:** Cafwyd galwadau gan nifer o bartïon gwahanol i alluogi prosiectau i wneud cais am gyllid ar gyfer yr un eitem / gweithgaredd fwy nag unwaith, ac felly'n awgrymu materion cynaliadwyedd. Gyda llawer o lifoedd grantiau, ceir pwyslais ar weithgareddau newydd ac arloesol, yn hytrach na gweithgareddau cyllido sy'n bodoli. Gan gofio'r ffaith bod y Gronfa Ymddiriedolaeth yn gweithredu mewn ardaloedd difreintiedig, lle gallai gallu'r gymuned fod yn fater, mae'r pwysau cyson i arloesi a dod o hyd i weithgareddau newydd yn faich ychwanegol a allai rwystro meithrin gallu cymunedol.

**Tystiolaeth:** Ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod elfen gwaith maes y gwerthusiad hwn, gwybodaeth yr ymgynghorwyr am gronfeydd grantiau eraill.

**Argymhelliad:** Bod ceisiadau blwyddyn ar flwyddyn i'r gronfa'n parhau i gael eu caniatáu.

### 4.2.4 Cynaliadwyedd y Grwpiau (2)

**Mater:** Cododd nifer o gyfweledigion mater cynaliadwyedd grwpiau cymunedol bach ac, mewn rhai achosion, mae angen cyngor ar gynaliadwyedd. Er enghraifft, lle mae grŵp wedi mynd at y Gronfa Ymddiriedolaeth er mwyn prynu wrn te, mae'n annhebygol y bydd angen cyngor ar gynaliadwyedd. Fodd bynnag, os yw grŵp wedi mynd at y Gronfa Ymddiriedolaeth i gyflwyno gwasanaeth neu weithgaredd penodol ar gyfer y gymuned (e.e. cyfleusterau meithrinfa), mae angen i'r grŵp hwnnw ystyried sut bydd yn cynnal y gweithgareddau hyn yn y tymor hwy. Fel y mae'r ymgynghorwyr yn ei gweld hi, mae cynghori ar gynaliadwyedd y gweithgareddau'n syrthio i faes Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf.

**Tystiolaeth:** Ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod elfen gwaith maes y gwerthusiad hwn.

**Argymhelliad:** Gan fod ceisiadau'n cael eu cymeradwyo, dylai Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf nodi'r grwpiau hynny y gallai cyngor ar gynaliadwyedd fod yn briodol iddynt, a chysylltu â nhw i gynnig y cymorth hwnnw. Fodd bynnag, mae mater gallu i'w ystyried fan hyn, a gellir ond rhoi unrhyw newidiadau i'r broses bresennol ar waith yn amodol ar allu Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf i'w cyflwyno.

### 4.2.5 Meini Prawf Cymhwyster / Mathau o Grwpiau a Gyllidir

**Mater:** Roedd yr holl randdeiliaid a chynrychiolwyr partneriaeth yn glir bod trafodaethau helaeth ac sy'n esblygu wedi arwain at ddatblygu meini prawf cymhwyster clir ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, a gofynion monitro cytûn. Fodd bynnag, codwyd pryderon o hyd gan rai cyfweledigion mewn perthynas ag:

- A ddylai grwpiau gael hawl i wneud cais i barhau â gweithgareddau yn y dyfodol ai peidio
- A oedd angen mwy o bwyslais ar 'ansawdd' grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth ai peidio – h.y. a ddylai grwpiau barhau i allu defnyddio'r gronfa i brynu blaseri a theis, dillad rygbi, yrnau te etc.
- A ddylid galluogi grantiau cydamserol ai peidio (h.y. rhaid i grwpiau ddychwelyd adroddiad diwedd prosiect a derbynebau cyn y gallant wneud cais am grant arall)
- A oedd grwpiau o'r tu allan i'r ardal gyda chyswllt tenau â'r gymuned leol yn llithro trwy rwyd asesu'r Gronfa Ymddiriedolaeth (nodwyd diffyg gwybodaeth leol y canolwyr fel rheswm am hyn)
- A ddylid gofyn i grwpiau fod yn fwy penodol am eu canlyniadau

Mae cryn amser ac ymdrech wedi'i dreulio wrth egluro'r meini prawf a'r gofynion monitro ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth, ac felly mae'n amharod i argymell codi'r materion hyn eto, pan na chawsant eu nodi'n broblemau gan y mwyafrif, ac felly gellid eu labelu o bosibl yn faterion 'mân' nad ydynt yn adlewyrchu'n gywir farn gyffredinol y rhaglen. Yn ogystal, mae gan y panel asesu'r gallu i wrthod grantiau os, er enghraifft, yw'r grŵp wedi gwneud cais 3 neu 4 gwaith yn y gorffennol. Mae'r hyblygrwydd hwn yn ddigonol ar gyfer y broses asesu bresennol ond gallai gael ei ymestyn ymhellach o bosibl.

**Tystiolaeth:** Ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod elfen gwaith maes y gwerthusiad hwn.

**Argymhelliad:** Mae gan y panel eisoes ddisgresiwn mewn nifer o feysydd. Dylai hyn gynnwys disgresiwn i wrthod grantiau nad ystyrir eu bod o ansawdd uchel, neu i ohirio penderfyniad ar y grantiau hyn hyd nes diwedd y rownd ymgeisio.

### 4.2.6 Cysylltiadau Grwpiau â Phartneriaethau

**Mater:** Roedd y rhanddeiliaid yn eithaf clir nad oedd rhaid i grwpiau a oedd wedi mynd at grant Cronfa Ymddiriedolaeth sefydlu cyswllt gyda'u partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol gan fod y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu'n fwriadol i weithredu'n annibynnol ar broses ehangach Cymunedau yn Gyntaf gyda grwpiau'n gallu gwneud cais yn uniongyrchol trwy CGGC, heb gefnogaeth nac ymglymiad eu partneriaeth leol. Yn ffurflen gais y Gronfa Ymddiriedolaeth, gofynnir i grwpiau a ydynt wedi cysylltu â'u Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf lleol, ond ni ddywedwyd yn eglur wrthynt wneud hynny. Mae'r panel asesu grantiau'n gweld bod cymorth partneriaeth ar gyfer grŵp a'i gais yn ddymunol, ond heb fod yn hanfodol. Teimlai rhai partneriaethau'n anniddig yn glir eu bod wedi'u hanwybyddu i bob pwrpas yn y broses, gan nodi diffyg cyfatebolrwydd rhwng prosiect grŵp a blaenoriaethau'r bartneriaeth leol fel y prif faes pryder, ond nid oedd ymateb aruthrol i'r ymgynghoriad hwn i nodi bod hwn yn bwnc llosg ar draws pob partneriaeth. Byddai disgwyl i safbwyntiau cryf ar y mater hwn ar draws mwyafrif y partneriaethau greu cyfradd ymateb sylweddol uwch.

**Tystiolaeth:** Ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod elfen gwaith maes y gwerthusiad hwn
**Argymhelliad:** Bod y broses ymgeisio bresennol yn cael ei chynnal fel y mae, heb unrhyw ymglymiad cynyddol gan bartneriaethau yn y cam hwn.

### 4.2.7 Marchnata (1)

**Mater:** Teimlai rhai rhanddeiliaid, ond nid pob un ohonynt, yn glir bod potensial i wella dull marchnata'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Yn benodol, teimlai un neu ddau randdeiliad efallai bod angen mwy o waith allgymorth gyda chymunedau nad ydynt yn gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth (e.e. y gymuned teithwyr).

**Tystiolaeth:** Ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod elfen gwaith maes y gwerthusiad hwn.

**Argymhelliad:** Mae gan rai aelodau o Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf wybodaeth eang am y cymunedau diddordeb maent yn gweithio gyda nhw, a gallent fod mewn sefyllfa i nodi'r cymunedau nad ydynt yn gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth, a'u targedu. Dylai Cydlynwyr Partneriaeth a Gweithwyr Datblygu hefyd gael rhyw lefel o wybodaeth leol y gellir ei defnyddio. Dylai hyn fod y tu allan i ystod y 'bobl arferol' a gallent gynnwys grwpiau fel gweithwyr o Wlad Pwyl, teithwyr, pobl ifanc sy'n datblygu eu prosiectau eu hunain (yn hytrach na phrosiectau *ar gyfer* pobl ifanc) etc.

### 4.2.8 Marchnata (2)

**Mater:** Roedd 58% o'r prosiectau a wnaeth gais llwyddiannus i'r Gronfa Ymddiriedolaeth dros 7 mlwydd oed, tra roedd 17% yn unig yn llai nag 1 mlwydd oed. Mae hyn yn cyflwyno rhywfaint o ofid, gan y gallai fod yn ddymunol i'r gronfa ddenu mwy o grwpiau newydd ac amhrofiadol, gan mai'r grwpiau hyn a allai elwa fwyaf o bosibl ar y broses ymgeisio syml, ac felly datblygu eu hyder a'u galluoedd rheoli prosiectau.

**Tystiolaeth:** Cyfweliadau gyda 361 o brosiectau a gyllidir, adolygiad meintiol.

**Argymhelliad:** Dylai partneriaethau, gyda chymorth Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, ddefnyddio astudiaethau achos prosiectau mewn papurau lleol i hyrwyddo straeon llwyddiant y Gronfa Ymddiriedolaeth, gan ddefnyddio iaith sydd o fewn cyrraedd a ffotograffau, a fydd yn ystyrlon i bobl leol ac a fydd yn annog grwpiau mwy newydd i ymgeisio. Er mwyn hwyluso'r broses hon, dylai fod yn ofynnol i bob grŵp anfon ffotograffau i mewn gyda'u hadroddiadau diwedd prosiect.

#### 4.2.9 Marchnata (3)

**Mater:** Roedd 58% o'r prosiectau a wnaeth gais llwyddiannus i'r Gronfa Ymddiriedolaeth dros 7 mlwydd oed, tra roedd 17% yn unig yn llai nag 1 mlwydd oed. Un syniad o bosibl, a allai annog grwpiau newydd i ffurfio a gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth, yw 'grant ffurfio'. Ar hyn o bryd, er mwyn gwneud cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth, mae'n rhaid i grwpiau gael cyfansoddiad (neu wneud cais trwy sefydliad partner a chanddynt gyfansoddiad) a chyfrif banc. Petai Grant Ffurfio'n cael ei sefydlu, gallai unigolyn / grŵp o unigolion gynnig datblygu grŵp, gwneud cais am gyllid cychwyn gan y Gronfa Ymddiriedolaeth, ac wedyn datblygu'r fframweithiau angenrheidiol wedi hynny, petai eu cais yn llwyddiannus. Byddai angen cymorth ar y grwpiau hynny sy'n ffurfio trwy gydol y broses, ond gallai hyn fod yn arf defnyddiol i ddatblygu grwpiau cymunedol ychwanegol mewn ardaloedd difreintiedig.

**Tystiolaeth:** Cyfweliadau gyda 361 o brosiectau a gyllidir, adolygiad meintiol.

**Argymhelliad:** Bod LlCC a Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn ystyried y syniad o Grant Ffurfio.

#### 4.2.10 Marchnata (4)

**Mater:** Cesglir gwybodaeth mewn perthynas ag arfer da prosiectau gan Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, ond gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r wybodaeth hon. Ar hyn o bryd, mae Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn trafod ffyrdd o ddatblygu rhannu arfer da ymhellach, ond nid oes unrhyw beth penodol wedi'i benderfynu eto.

**Tystiolaeth:** Cyfweliadau gyda Rhanddeiliaid.

**Argymhelliad:** Dylai'r wybodaeth arfer da yn yr adroddiad hwn ffurfio sail Pecyn Offer Dysgu (neu Gyfeiriadur Arfer Da), y dylid ei rhannu gyda phob prosiect a phartneriaeth fel mater o drefn. Dylai'r ddogfen hon fod yn adnodd sy'n datblygu a ychwanegir ati'n barhaus, bob chwe mis efallai.

#### 4.2.11 Marchnata (5)

**Mater:** Pan ofynnwyd iddynt sut roeddent wedi clywed am y Gronfa Ymddiriedolaeth, gwnaeth rhai prosiectau sylwadau diddorol, e.e. *"Clywyd amdano trwy bobl eraill yn unig, felly mae angen mwy o hysbysebu"* ac *"Nid wyf erioed wedi'i weld yn cael ei hysbysebu".* Mae'r sylwadau hyn yn colli'r pwynt fod clywed drwy bobl eraill yn ffordd ddilys o hyrwyddo ac yn colli'r ffaith bod yr ymatebydd yn amlwg wedi dod yn ymwybodol o'r gronfa gan iddynt wneud cais llwyddiannus iddi. Roedd syniadau ar gyfer gwella'r dull hyrwyddo a marchnata'n cynnwys:

- *"Hysbysebu'r pethau da sy'n digwydd mewn ardal Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf"*
- *"Mae angen iddo fod mewn lliw, gyda llai o eiriau, gan ei fod yn atal pobl"*
- *"Mwy o bosteri"*
- *"Dylai gweithwyr o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf ymweld â phrosiectau'n amlach"*

**Tystiolaeth:** Cyfweliadau gyda 361 o brosiectau a gyllidir.

**Argymhelliad:** Gallai Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf ystyried y sylwadau a wnaed gan brosiectau mewn perthynas â hyrwyddo – wedi'u hatgynhyrchu'n llawn yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn – er mwyn gweld a ellir symud unrhyw un o'r elfennau hyn ymlaen gan sefydliadau Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf.

#### 4.2.12 Rheolaeth y Bartneriaeth Leol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth

**Mater:** Teimlai'r rhanddeiliaid yn gryf na ddylai partneriaethau gael rheolaeth o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf (trafodir y rhesymau am hyn yn adran casgliadau'r adroddiad, ac ni fyddant yn cael eu hailadrodd fan hyn). Teimlai lleiafrif bach o bartneriaethau y dylent gael rheolaeth ar ddosbarthu cronfeydd, neu o leiaf hawl i roi sylwadau ar geisiadau. Mae'r syniadau'n cynnwys:

- Galluogi rôl fwy canolog i bartneriaethau wrth roi sylwadau ar sut roedd ceisiadau'n ffitio gydag amcanion lleol
- Galluogi partneriaethau i gael eu cynrychioli mewn rhyw ffordd ar y panel asesu grantiau
- Rhoi mwy o wybodaeth i bartneriaethau o gyfarfodydd panel fel y gallant wneud sylwadau, ac felly dylanwadu ar benderfyniadau'r panel i'r dyfodol o bosibl.
- Sefydlu grwpiau ffocws fel y gall y bartneriaeth roi sylwadau ar feini prawf cymhwyster y gronfa
- Datblygu sefyllfa man canol lle gall partneriaethau, dan oruchwyliaeth, benderfynu ar geisiadau o dan £500

Fel y mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd, mae'r broses asesu'n wrthrychol. Gallai rheolaeth leol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth, mewn rhai sefyllfaoedd gyflwyno goddrychedd i'r broses gwneud penderfyniadau. At hynny, mae costau gweinyddol y Gronfa Ymddiriedolaeth yn isel ar hyn o bryd oherwydd caiff y gronfa ei rheoli'n ganolog, ac mae'r gwaith gweinyddol yn effeithlon. Gallai datganoli'r gronfa i'r lefel leol gynyddu costau gweinyddol, a gallai leihau effeithlonrwydd. At hynny, ac efallai'n bwysicaf oll, sefydlwyd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i hwyluso datblygiad cymunedau lleol trwy gynlluniau gweithredu lleol cytûn (gyda lefelau llwyddiant amrywiol iawn ar hyn o bryd). Byddai cyflwyno cyfrifoldeb dosbarthu grantiau i bartneriaethau'n lleihau'r ffocws ar gyflwyno cynllun gweithredu, ac ni ellir fforddio'r gwanhad hwn yn syml ym mwyafrif yr ardaloedd partneriaeth.

**Tystiolaeth:** Ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod elfen gwaith maes y gwerthusiad hwn.

**Argymhelliad:** Ni ddylai partneriaethau gael rheolaeth o'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn eu hardal. Petai'r sefyllfa'n newid fel bod y gronfa'n mynd yn fwy cyfunion yn strategol, wedyn byddwn yn argymell adolygu'r argymhelliad hwn, ond gan y caiff y gronfa ei chymhwyso 'lled braich' ar hyn o bryd i weithgareddau ac ymyriadau Cymunedau yn Gyntaf, mae'n ymddangos yn rhesymol cadw'r broses gymeradwyo lled braich hefyd.

Hoffwn nodi fan hyn hefyd y byddai o fantais i'r prosiectau mwy o faint gael cyswllt gan swyddogion Rhwydwaith Cymunedau yn Gyntaf cyn ac ar ôl y dyfarniad, er mwyn lleihau'r tebygrwydd o ddyblygu a hyrwyddo cydweithio gyda phrosiectau eraill yn yr ardal. Petai'r prosiectau mwy o faint yn dod yn gynaliadwy a'u bod yn cyflwyno manteision strategol, bydd angen deialog rhwng Cymunedau yn Gyntaf a'r prosiect dan sylw ar ryw adeg. Hoffwn awgrymu bod pob prosiect yn cael cyswllt gyda swyddog Cymunedau yn Gyntaf lleol i drafod blaen strategaeth a chynaliadwyedd a chysylltiadau â chyfleoedd cyllido (mwy o faint) a rhwydweithiau cefnogi eraill.

#### 4.2.13 Ychwanegu LSOAs at Broses Cymunedau yn Gyntaf

**Mater:** Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i ddod â 46 LSOA ychwanegol i mewn i broses Cymunedau yn Gyntaf. Arweiniad LlCC yw y dylai LSOAs fod yn gymwys am ddyraniad Cronfa Ymddiriedolaeth o £5,000 yn y flwyddyn gyntaf, gan symud ymlaen at ddyraniad o £10,000 y flwyddyn wrth i fframweithiau a phartneriaethau gael eu rhoi ar waith, gan ddod â nhw i gyd y unol â'r pocedi amddifadedd presennol.

**Tystiolaeth:** Polisi LlCC, cyfweliadau gyda rhanddeiliaid, dadansoddiad o ddata meintiol fesul pen.

**Argymhelliad:** Er mwyn creu 'momentwm' mewn ardaloedd LSOA newydd, gallai fod o fantais i 'uwch gyllido'r' cymunedau hyn ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf i annog cynifer o grwpiau cymunedol â phosibl i ddod gerbron a chymryd rhan. Awgrymwn ddyrannu hyd at £20,000 fesul cymuned am y ddwy flynedd gyntaf os bydd cyllid yn caniatáu.

#### 4.2.14 Dyrannu Cyllid

**Mater:** Mae dadansoddiad meintiol wedi dangos bod dyraniad cyllid fesul pen y boblogaeth ar draws y tri math gwahanol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn rhesymol o deg.

**Tystiolaeth:** Dadansoddiad o ddata meintiol.

**Argymhelliad:** Bod LlCC yn parhau â'r system bresennol o ddyrannu cronfeydd i'r 142 ardal Cymunedau yn Gyntaf gwreiddiol, gydag LSOAs yn cael eu hychwanegu fel y disgrifir uchod.

# 5. Arfer Da

## 5.1 Arfer Da – Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn gyntaf

Mae Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn casglu enghreifftiau o'r hyn y mae'n eu hystyried yn arfer da o ystod o brosiectau a grwpiau ledled Cymru, nid dim ond y prosiectau hynny a gyllidir trwy'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Defnyddir templed i gasglu'r wybodaeth hon mewn ffordd safonol, ac mae'n cofnodi'r manylion canlynol:

- Enw'r prosiect, y lleoliad, a dyddiad yr ymweliad astudiaeth achos
- Yr hyn y mae'r prosiect yn ei wneud - e.e. pryd a pham y dechreuodd y cynllun, pwy yw'r buddiolwyr targed, y prif nodau ac amcanion, y meysydd gweithgarwch allweddol, a phwy sy'n cyflawni beth
- Elfennau cynhwysol a chyfranogol y prosiect – e.e. faint mae'r gymuned ynghlwm ag ef, faint o lais sydd gan y gymuned yn y penderfyniadau a wneir, ydy'r prosiect yn defnyddio dulliau gweithio cynhwysol ac anwahaniaethol
- Yr hyn y mae'r prosiect wedi'i gyflawni hyd yma a'i gynllun ar gyfer y dyfodol – e.e. y prif allbynnau a chanlyniadau, a sut y cânt eu mesur
- Enghreifftiau o werth ychwanegol gweithio mewn partneriaeth – h.y. y manteision sydd wedi codi na fyddent wedi ymddangos pe na bai'r prosiect wedi gweithio mewn partneriaeth, faint o gynllunio a chyflwyno a wneir gydag asiantaethau eraill yn yr ardal?
- Y prif heriau a wynebwyd a'r gwersi allweddol a ddysgwyd gan y prosiect

Caiff yr astudiaethau achos arfer da canlyniadol eu postio ar wefan Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, a chânt eu cynnwys hefyd yn y bwletinau Cymunedau yn Gyntaf misol sy'n mynd i bob partneriaeth. I gael mwy o wybodaeth mewn perthynas ag astudiaethau achos arfer da, ewch i:

http://www.communitiesfirst.info/CaseStudies/index

## 5.2 Arfer Da – Rheolaeth a Gweinyddiaeth Ganolog

Dros y tudalennau canlynol, cyflwynir crynodeb o arfer da o ddau safbwynt gwahanol –rheoli / gweinyddu a chyflawni'r prosiect. Er mai safbwynt yr ymgynghorwyr sy'n cynnal y gwaith hwn yw'r wybodaeth yn yr adran hon, dylid pwysleisio bod yr ymgynghorwyr wedi gwerthuso nifer o raglenni grant, ac felly maent mewn sefyllfa i nodi gwybodaeth berthnasol yn ymwneud ag arfer da mewn ystod o amgylchiadau.

| **Rheolaeth a Gweinyddiaeth Ganolog** | |
|---|---|
| **Arfer Da** | **Esboniad** |
| Cymorth swyddog un-i-un ac allgymorth i'r grwpiau cais | Bydd grwpiau cais yn gweld bod cymorth swyddog cyn y broses ymgeisio yn amhrisiadwy. Gall y cymorth hwn helpu grwpiau i gynllunio'u prosiect yn glir, a sicrhau eu bod wedi rhagweld yn glir effaith bosibl y prosiect ar eu grwpiau targed.<br><br>Bydd cymorth swyddog yn ystod y cais yn sicrhau y caiff cais ansawdd uwch ei gyflwyno, gan sicrhau nad yw prosiectau gwerthfawr yn colli allan ar gyllid yn sgil sgiliau ysgrifennu ceisiadau gwael.<br><br>Ble bynnag y bo'n bosibl, dylid cyflwyno'r holl gefnogaeth ar sail allgymorth ar adegau hyblyg i sicrhau hygyrchedd.<br><br>Gwelodd yr ymgynghorwyr nad oedd angen i fwyafrif y prosiectau fynd |

| | |
|---|---|
| | at gymorth i lenwi eu cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Lle roeddent wedi gwneud hynny, teimlwyd bod y cymorth o ansawdd priodol ar y cyfan. |
| Cymorth canolog hygyrch arall i grwpiau | Yn ogystal â'r ffaith bod cymorth swyddogion yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r broses ymgeisio, mae angen i gymorth ymdrin hefyd ag adenillion ariannol a gweithdrefnau gweinyddol eraill yn ymwneud â'r corff sy'n rhoi'r grant. Unwaith eto, hwyrach mai dyma'r achos yn benodol ar gyfer grwpiau newydd, neu grwpiau sy'n cael mynediad at eu grant cyntaf. Mae'r cymorth hwn yn hynod werthfawr os gellir mynd ato'n gyflym ac yn hawdd ac mewn ffordd anffurfiol a chyfeillgar. Mae'r dull anfygythiol hwn yn sicrhau bod grwpiau'n teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo drwy'r broses yn hytrach na chael eu bygwth gyda chanlyniadau annymunol os na chaiff adenillion eu gwneud yn gywir. |
| Marchnata a chyhoeddusrwydd effeithiol | Lle bo'n bosibl, dylid cyfeirio deunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd trwy grwpiau ymbarél y mae ganddynt bresenoldeb yn y gymuned leol eisoes - yn yr achos hwn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, etc<br><br>Yn ogystal, gallai fod angen targedu grwpiau penodol anodd eu cyrraedd neu sy'n cael eu tangynrychioli. Unwaith eto, cyflawnir mynediad i'r grwpiau hyn orau trwy sefydliadau sy'n bodoli y mae ganddynt gyswllt gyda'r gymuned dan sylw neu bresenoldeb ynddi eisoes.<br><br>Dylid hefyd defnyddio deunydd marchnata a chyhoeddusrwydd safonol eraill – gwefannau, taflenni, cylchlythyrau, diwrnodau gwybodaeth, cyfarfodydd, trwy glywed ar lafar etc.<br><br>Mae ffigurau monitro CGGC bellach yn cofnodi niferoedd y grwpiau newydd y rhoddir grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth iddynt. Yn 2006/07, 19% oedd canran y grwpiau newydd sy'n mynd at y Gronfa Ymddiriedolaeth. Nododd arolwg Wavehill ei hun o brosiectau bod 17% o grwpiau a oedd wedi cael grant o dan un mlwydd oed. |

| Rheolaeth a Gweinyddiaeth Ganolog | |
|---|---|
| **Arfer Da** | **Esboniad** |
| Ffurflen gais clir | Dylai ffurflenni cais ofyn am isafswm y wybodaeth er mwyn asesu cais yn gywir. Dylid gofyn pob cwestiwn mewn iaith glir a syml. Dylai fod gan bob ffurflen gais wybodaeth ar gyfer cysylltu ar gyfer ffynonellau cyngor a chymorth yn y corff sy'n dal y grant.<br><br>Mae tystiolaeth o ymchwil y Gronfa Ymddiriedolaeth yn nodi bod y ffurflen gais yn syml ac yn hawdd ei deall, gyda mwyafrif y prosiectau'n cael dim problem wrth lenwi'r ffurflen. |
| Pecyn offer o ffurflenni templed monitro a gwerthuso | Gall arweiniad rheoli da neu becyn offer o ffurflenni templed ar gyfer monitro a gwerthuso a phrosesau hanfodol eraill fod yn arf amhrisiadwy i ymgeiswyr amhrofiadol. Dylid gosod pob ffurflen yn glir gyda nodiadau arweiniad cefnogol clir. Lle bo'n ymarferol, dylai fod modd addasu'r holl ddeunyddiau i weddu i'r grŵp cais unigol, ac i ffitio'n agosach gydag unrhyw arferion monitro presennol y maent eisoes yn ymgymryd â nhw.<br><br>Mae cyngor ac enghreifftiau ar sut i fonitro'r pellter a gaiff ei deithio gan fuddiolwyr yn hynod bwysig mewn arweiniadau rheoli da: gellir esgeuluso pwysigrwydd y math hwn o fonitro ar gyfer grwpiau cais amhrofiadol. Felly, mae cymorth yn y maes penodol hwn yn hanfodol.<br><br>Gellir ychwanegu at yr holl bethau uchod trwy ddigwyddiadau hyfforddi, a all hefyd gael eu defnyddio fel digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer grwpiau sy'n derbyn grantiau, neu gymorth monitro un i un.<br><br>Wrth gwrs, nod y Gronfa Ymddiriedolaeth oedd cadw'r gwaith monitro i isafswm, ac felly, mae pen sengl ffurflen y prosiect yn fyr ac yn syml. |
| Rhwydweithio rhwng derbynyddion grantiau i alluogi rhannu gwybodaeth ac arfer da | Yn gysylltiedig â'r uchod, mae ymchwil yn dangos bod prosiectau llwyddiannus yn datblygu ac yn cynnal nifer fawr o gysylltiadau a rhwydweithiau. Lle bo'n bosibl, dylai cyrff sy'n dal grantiau felly darparu digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer derbynyddion grantiau, yn ychwanegol at unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi a drefnir. Bydd hyn yn sicrhau rhannu ystod eang o wybodaeth rhwng grwpiau.<br><br>Yn ogystal, gall cyrff sy'n dal grantiau ddefnyddio'r digwyddiadau hyn i ledaenu arfer da trwy weithdai, grwpiau trafod, hysbysfyrddau, siaradwyr gwadd, deunyddiau ysgrifenedig, etc.<br><br>Yn achos y Gronfa Ymddiriedolaeth, gallai digwyddiadau rhanbarthol fod yn fwy priodol na rhai cenedlaethol, gyda ffocws ar ddathlu a rhannu llwyddiannau, yn hytrach na sesiynau gweithdy neu wybodaeth gyda mwy o strwythur. |

| **Rheolaeth a Gweinyddiaeth Ganolog** | |
|---|---|
| **Arfer Da** | **Esboniad** |
| Mentora wedi'i drefnu'n ganolog ar gyfer prosiectau newydd | Yn gysylltiedig â'r uchod, gallai fod modd i'r corff sy'n dal y grant (neu bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf) nodi sefydliadau cymunedol profiadol sy'n fodlon gweithredu fel mentoriaid i grwpiau llai profiadol. Gall yr adnodd hwn ddarparu cyngor ymarferol parhaus i grwpiau mwy newydd, a gyflwynir mewn lleoliad anffurfiol a chyfeillgar gan rywun gyda phrofiad ymarferol mewn maes sy'n gysylltiedig yn agos. Gall mentora felly barhau gan y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan y gall derbynyddion yn eu tro drosglwyddo eu gwybodaeth i brosiectau newydd. |
| Asesiad cyflym o geisiadau | Dylai fod gan broses asesu'r corff sy'n dal y grant uchafswm amser cyflawni targed ar gyfer ceisiadau, gan y gall penderfyniad cyflym fod o bwysigrwydd mawr, yn enwedig i grwpiau llai o faint. Mae'r ymchwil hon yn nodi bod yr amser cyflawni ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth yn dderbyniol. |
| Grantiau o fewn cyrraedd i grwpiau llawr gwlad | Er mwyn i gynlluniau grantiau bach fod o fantais uniongyrchol i grwpiau cymunedol a gwirfoddol llawr gwlad bach, dylid gosod ffigur uchaf ar gyfer trosiant trefniadol ar gyfer ymgeiswyr er mwyn sicrhau mai dyma yw'r achos. |
| Panel asesu annibynnol | Dylid cynnal asesiadau o geisiadau i gynlluniau grantiau bach trwy ddefnyddio proses arfarnu strwythuredig o feini prawf sgorio penodol gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb wrth ddewis prosiect. Dylai panel asesu annibynnol gyflawni'r broses hon er mwyn sicrhau tryloywder o ran penderfyniadau ymgeisio. Mae'r ymchwil hon wedi gweld bod y panel asesu ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth yn glir ynghylch y meini prawf cymhwyster, ac felly mae'n fecanwaith addas ar gyfer asesu ceisiadau. |
| Cymorth ychwanegol i ddarpar fentrau cymdeithasol | Bydd mentrau cymdeithasol yn parhau i chwarae rôl gynyddol mewn datblygiad economaidd lleol, yn enwedig mewn ardaloedd o anfantais, gan ddarparu nwyddau a gwasanaethau y mae'r farchnad neu'r sector cyhoeddus yn methu neu'n anfodlon eu cyflenwi. Gallant gynnig gwerth ychwanegol uchel trwy adeiladu cymdeithasol a meithrin gallu, ysgogi hyder a thwf y gymuned, a gwella cyflogadwyedd. Felly, ble bynnag y caiff y potensial am fenter gymdeithasol ei nodi mewn prosiect cais, dylent gael eu cyfeirio at gymorth busnes arbenigol ychwanegol, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny. |

| **Rheolaeth a Gweinyddiaeth Ganolog** | |
|---|---|
| **Arfer Da** | **Esboniad** |
| System rheoli gwybodaeth rymus er mwyn targedu marchnata ar is-grwpiau penodol yn ôl yr angen | Gall cynlluniau grantiau bach fod yn effeithiol wrth gyrraedd is-grwpiau dan anfantais neu ar yr ymylon. Fodd bynnag, rhaid i'r corff sy'n dal y grant gael System Rheoli Gwybodaeth rymus i fonitro'r mathau o grwpiau (a'u buddiolwyr) sy'n mynd at y grantiau, ac addasu eu dull marchnata i fynd i'r afael ag unrhyw dangynrychiolaeth a nodir. Mae CGGC wedi sefydlu systemau cadw cofnodion da ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth, a gall ddarparu crynodebau o elfennau amrywiol yn gyflym ac yn syml. |
| Gwerthusiad cyffredinol canolog o ganlyniadau ac allbynnau'r prosiectau | Canlyniadau - mae gwerthusiad o arfer da a'r gwersi a ddysgwyd o safbwynt y prosiect sy'n derbyn y grant ar y cyfan yn hanfodol ar draws y rhaglenni grantiau. Unwaith eto, dylai'r corff sy'n dal y grant gyflenwi ffurflenni templed i helpu grwpiau i fesur yn glir y gallu a gafodd ei feithrin, y partneriaethau a sefydlwyd, mwy o gynaliadwyedd etc<br><br>Allbynnau – dylai'r corff sy'n dal y grant hefyd, trwy'r System Rheoli Gwybodaeth, gadw cofnod canolog o'r swyddi a grëwyd, yr oriau gwirfoddoli a ddefnyddiwyd, y cyllid a dynnwyd i mewn, y buddiolwyr a gymhwysodd neu a symudodd i mewn i hyfforddiant neu swyddi, etc. |
| Galluogi derbynyddion grantiau i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd | Bydd pob prosiect sy'n derbyn grant yn elwa ar gynllunio cynaliadwyedd trylwyr yn gynnar yn eu datblygiad a'u cyflwyniad. Gellir ymgorffori cynllunio cynaliadwyedd mewn prosiect trwy gyflwyno rhaglen ôl-ofal, gan gynnig cymorth yn ôl yr angen, gyda'r nod o wella'r adenillion ar fuddsoddiad a lleihau'r risg o sefydliadau'n methu gwireddu eu potensial yn sgil diffyg cynllunio. |
| Hyrwyddo cadarnhaol | Mae cynlluniau grant llwyddiannus sy'n cynorthwyo niferoedd mawr o grwpiau yn arf marchnata a hyrwyddo grymus ar gyfer y corff sy'n rhoi'r grant. Felly, dylid defnyddio'r holl gyfleoedd i hyrwyddo'r corff sy'n rhoi'r grant trwy'r gronfa. Yn achos y Gronfa Ymddiriedolaeth, mae LlCC yn cydnabod bod y Gronfa'n hynod werthfawr am ei fod yn rhoi i bobl yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yr argraff bod LlCC yn rhoi arian iddynt yn uniongyrchol, ac felly'n creu 'ffactor teimlad da' cryf sy'n uniongyrchol gysylltiedig â LlCC. |
| Hyblygrwydd y cyllid | Am resymau amrywiol, gallai cronfeydd grantiau gweld eu hunain yn cael eu tan-danysgrifio mewn rhai ardaloedd / themâu, ac yn cael eu gordanysgrifio mewn rhai eraill. Os dyma yw'r achos, dylai fod hyblygrwydd yn y cynllun i ailddyrannu cronfeydd i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Dyma'r achos ar hyn o bryd gyda'r Gronfa Ymddiriedolaeth lle, os oes tanwariant mewn un ardal ar ddiwedd y broses ymgeisio, caiff dyraniad yr ardal ei rhoi'n ôl i mewn i 'bot' canolog, a'i ailddyrannu i ardaloedd sydd wedi gwario'u hawl yn llawn. |

## 5.3 Arfer Da – cyflawni'r prosiect

| Cyflawni'r prosiect | |
|---|---|
| **Arfer Da** | **Esboniad** |
| Ymchwil drylwyr i'r angen am y prosiect | Dylid profi'r angen yn y gymuned leol am weithgareddau'r darpar brosiect cais yn glir cyn cyflwyno'r cais. Yn ogystal, dylai darpar ymgeiswyr, lle bo'n bosibl, ffurfio cysylltiadau gyda grwpiau cyflenwol yn yr ardal leol. |
| Realaeth wrth gynllunio prosiectau | Mae hyn yn cynnwys materion fel: faint o bobl y bydd eu hangen i gyflawni'r prosiect; faint o amser fydd ei angen; pa sgiliau arbenigol y mae eu hangen; etc. Bydd prosiectau cais yn aml yn tanamcangyfrif amserlen neu swm y staff neu'r gwirfoddolwyr y mae eu hangen i'w gyflawni. Bydd deilydd grant effeithiol yn annog grwpiau i fod yn realistig ynghylch yr hyn y gall gyflwyno.<br><br>Yn gysylltiedig â'r uchod, gallai fod angen cynghori ymgeiswyr hefyd i ymgorffori hyblygrwydd yn eu cyflawniad. Gall prosiectau ddibynnu ar wirfoddolwyr, neu weithio gyda grŵp targed anwadal, neu gael eu heffeithio fel arall gan amgylchiadau y tu allan i'w rheolaeth. Er y gall cynllunio realistig fynd â phrosiect hyn a hyn o bellter, bydd llawer hefyd yn elwa ar gynllun 'lle i droi' er mwyn gwneud unrhyw fân addasiadau i'r amserlen a'r cyflawniad yn ôl yr angen. |
| Gwerthuso ar lefel buddiolwyr y prosiect | Mae gwerthuso canlyniadau meddal a'r pellter a gaiff ei deithio gan fuddiolwyr yn arfer da. Gall y corff sy'n dal y grant gynorthwyo'r broses hon trwy ddarparu ffurflenni templed a deunyddiau eraill ar gyfer gwerthuso buddiolwyr sydd o natur ansoddol a meintiol.<br><br>Dylid rhoi gwybod i dderbynyddion grantiau ynghylch sut gallant gofnodi canlyniadau meddal mewn ffordd fesuradwy neu gyfrifadwy (fel trwy awgrymiadau amlddewis fel: "mae fy hyder wedi gwella yn ystod fy amser gyda'r prosiect" gydag atebion gosod fel: cytuno'n gryf, cytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf, nid y naill na'r llall). Gellir defnyddio cwestiynau / datganiadau mesuradwy felly i ddal y llinell sylfaen a safle pen draw buddiolwyr a hefyd, os oes angen, i lywio astudiaethau arhydol.<br><br>Fodd bynnag, dylid gwerthfawrogi hefyd mai diben y Gronfa Ymddiriedolaeth oedd lleihau tâp coch ac agor y broses ymgeisio i fyny i bawb trwy leihau gofynion monitro'n sylweddol. |
| Gwerthuso'r prosiectau a gyllidwyd ar eu pen eu hunain | Canlyniadau – mae gwerthusiad o arfer da a'r gwersi a ddysgwyd o safbwynt y prosiect sy'n derbyn y grant ar y cyfan yn hanfodol. Unwaith eto, dylai'r corff sy'n dal y grant gyflenwi ffurflenni templed i helpu grwpiau i fesur yn glir y gallu a gafodd ei feithrin, y partneriaethau a sefydlwyd, mwy o gynaliadwyedd etc.<br><br>Allbynnau – dylai'r prosiect gadw cofnod o'r swyddi a grëwyd, yr oriau gwirfoddoli a ddefnyddiwyd, y cyllid a dynnwyd i mewn, y buddiolwyr a symudodd i mewn i hyfforddiant neu swyddi, etc. |

| **Cyflawni'r prosiect** | |
|---|---|
| **Arfer Da** | **Esboniad** |
| Defnydd o holl gymorth a deunyddiau'r corff sy'n dal grant | Lle mae'r corff sy'n dal grant yn darparu arweiniadau rheolaeth dda ynghyd â chymorth hyfforddiant ar gyfer rheoli a monitro prosiectau, dylai derbynyddion y grantiau wneud defnydd llawn o'r cymorth hwn. |
| Cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd | Bydd pob prosiect sy'n derbyn grant yn elwa ar gynllunio cynaliadwyedd trylwyr yn gynnar yn eu datblygiad a'u cyflawniad. Gellir ymgorffori cynllunio cynaliadwyedd mewn prosiect gyda chymorth rhaglen ôl-ofal a ddarperir gan y corff sy'n dal y grant. |
| Osgoi dibyniaeth ar grant | Er bod cronfeydd grant yn bodoli i roi cymorth grant i grwpiau, dylid parhau i gynnal ffocws ar godi arian a chreu incwm. Hwyrach na fydd llifoedd grantiau ar gael yn y tymor hir, a dylid annog grwpiau yn y cam ymgeisio i archwilio pob dewis ar gyfer creu incwm lle bo hynny'n briodol neu'n bosibl, heb beryglu eu cyfleoedd o wneud cais llwyddiannus am grant. |
| Cynnwys buddiolwyr wrth ddylunio prosiectau | Wrth ddatblygu syniadau am brosiectau, mae'n ddymunol bob amser i gynnwys buddiolwyr yn y broses cynllunio a datblygu prosiect. Gall hyn gryfhau'r prosiect trwy sicrhau ei fod yn cyflwyno yn ôl yr angen, a gall hefyd wella'i gyfleoedd o wneud cais llwyddiannus am gronfeydd. |